# Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc

# Traws

Canllaw ar gefnogi plant a phobl ifanc trawsryweddol yn yr ysgol.

# Cynnwys


**Rhagair** 4

**Cydnabyddiaeth** 4

**1 Cyflwyniad** 5

1.1 Ymrwymiad Bro Morgannwg i gydraddoldeb a chynhwysiant ....5

1.2 Trosolwg ....6

1.3 Sut i ddefnyddio’r Pecyn Cymorth....8

1.4 Egwyddorion a negeseuon sylfaenol yn y pecyn cymorth ....9

**2 Datblygu dealltwriaeth o blant a phobl ifanc traws ac sy’n amrywiol o ran rhywedd** 9

2.1 Cyflwyniad i dermau ....9

2.2 Diffiniadau allweddol ....10

**3 Cyd-destun cyfreithiol** 15

3.1 Deddf Cydraddoldeb, 2010 ....15

3.2 Deddf Cydraddoldeb 2010 a disgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd yn lleoliadau addysg Bro Morgannwg ....17

3.3 Diogelu ....18

3.4 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth ....18

3.5 Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ....19

3.6 Fframwaith Arolwg Addysg ESTYN ....20

**4 Dull Gweithredu Lleoliad Cyfan** 21

4.1 Cyflwyniad ....21

4.2 Rôl Llywodraethwyr ....21

4.3 Hyfforddi Staff....22

4.4 Y gymuned rhieni a gofalwyr ....22

4.5 Fframwaith Polisi ....23

4.6 Bwlio ac aflonyddu trawsffobig a rhywiol ....23

4.7 Iaith ....25

4.8 Cwricwlwm ....26

**5 Cefnogi’r plentyn neu’r person ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd** 30

5.1 Dull gweithredu unigol o gefnogi ....30

5.2 Gweithio gyda rhieni, gofalwyr a brodyr a chwiorydd disgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd....33

5.3 Trawsnewid ....33

5.4 Amseru trawsnewid (gan gynnwys pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd) .36

5.5 Disgyblion a myfyrwyr â nodweddion ychwanegol sy’n eu gwneud yn agored i niwed ....37

5.6 Cyfeirio i gefnogaeth ychwanegol....39

**6 Canllawiau ESTYN a rheoli materion penodol ar gyfer plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd 39**

6.1 Canllawiau Estyn....39
6.2 Mynediad a diogelwch i bawb....41
6.3 Toiledau ac Ystafelloedd Newid....42
6.4 Addysg Gorfforol a chwaraeon....43
6.5 Teithiau preswyl....44
6.6 Gwisg....45
6.7 Newidiadau i enwau a rhagenwau....45
6.8 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth....48
6.9 Profiad gwaith....48
6.10 Brechiadau....48
6.11 Delio gyda'r cyfryngau....49

**7 Staff a llywodraethwyr traws ac anneuaidd 49**

**8 Cymorth ychwanegol 50**

Atodiad 1 Datganiad Cyd-destun....52
Atodiad 2 Data cenedlaethol....56
Atodiad 3 Mwy o wybodaeth am y fframwaith cyfreithiol....58
Atodiad 4 Diffiniadau – bwlio a rhagfarn....61
Atodiad 5 Canllaw i bolisïau Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws....63
Atodiad 6 Templed ar gyfer datganiad lefel ysgol ar arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc traws yn ein hysgol....64
Atodiad 7 Dull gweithredu lleoliad cyfan o gynnwys plant a phobl ifanc traws – offeryn archwilio a chynllunio gweithredu .... **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad 8 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb....70
Atodiad 9 – Asesiad Risg....81

# Rhagair

Rydym yn falch o gyflwyno'r fersiwn diweddaraf hwn o'r *Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws ar gyfer Ysgolion.*

Rydym yn cydnabod bod plant a phobl ifanc Traws yn agored i fwlio, rhagfarn a chanlyniadau iechyd meddwl gwael os nad ydyn nhw'n cael eu cefnogi'n effeithiol.

Rydym yn gweld y Pecyn Cymorth yn ychwanegiad pwysig i’r amrywiaeth o adnoddau a chanllawiau cydraddoldeb a gwrth-fwlio a ddarparwn i leoliadau addysg ym Mro Morgannwg sy'n cefnogi myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig ac anghenion eang.

Rydym yn gwybod o sgyrsiau gyda phobl ifanc a'u teuluoedd pa mor hanfodol yw’r gefnogaeth yn y maes hwn a'r gefnogaeth mae ein hysgolion wedi ei chynnig iddyn nhw.

Credwn fod y canllaw drafft hwn, ar y cyd â dogfennau canllaw eraill, yn darparu syniadau ar gyfer polisi ac ymarfer a fydd yn cadw plant a phobl ifanc traws yn ddiogel ac yn helpu i greu amgylcheddau sy'n helpu i atal ac ymateb yn rhagweithiol i stereoteipiau o ran rhywedd.

Darllenwch ef yn ofalus gan fod hwn yn faes ymarfer cymhleth lle mae angen meddwl yn ofalus a chydbwyso anghenion.

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth.



**Y Cynghorydd Lis Burnett**
Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg



**Paula Ham**
Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau

# Cydnabyddiaeth

Dyma ail fersiwn y Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws ar gyfer Ysgolion gan Gyngor Bro Morgannwg ac mae'n adlewyrchu cyfraniadau ac adborth o ystod eang o ffynonellau.

Mae'r fersiwn hwn sydd wedi ei ddiweddaru wedi dibynnu ar:

- Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws ar gyfer Ysgolion Brighton a Hove a'r cyfraniadau a wnaed gan brosiect ieuenctid Allsorts.
- Adroddiad arolwg thematig ESTYN ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion 'We don't tell our teachers' Rhagfyr 2021.
- Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ESTYN uchod ac argymhellion sy'n deillio ohono.

# 1 Cyflwyniad

## *1.1 Ymrwymiad Cyngor Bro Morgannwg i gydraddoldeb a chynhwysiant*

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Ein gweledigaeth yw cael Sir mwy cyfartal lle nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl. Mae pawb yn haeddu cael eu gwerthfawrogi a'u trin â pharch.

Fel sefydliad, rydym yn gweithio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i gynnal urddas a pharch holl drigolion y Sir, plant a phobl ifanc yn ein hysgolion, a'n staff.  Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb a Rheoliadau Cymru hefyd yn berthnasol i ysgolion.

Ystyrir y rhwymedigaethau a osodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb a Rheoliadau Cymru yn 3.1 isod. Mae'r ddeddfwriaeth nid yn unig yn gwahardd gwahaniaethu yn gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig gan gynnwys ailbennu rhywedd, ond hefyd yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys y Cyngor ac ysgolion yn rhoi sylw dyledus i'r angen i gymryd camau gweithredol i leihau neu gael gwared ar anfanteision sy'n gysylltiedig â'r nodweddion hyn.

Rydym yn deall bod cyd-destunau a thirweddau cymdeithasol a gwleidyddol yn newid dros amser. Rydym hefyd yn cydnabod bod hunaniaethau'n esblygu ac yn gymharol i gyd-destunau gwahanol. Felly, rydym yn parhau i fod yn agored i ddysgu o ysgolion a chymunedau gwahanol ac i ymchwil newydd, cyfraith achosion newydd, ac arfer gorau. Byddwn yn defnyddio hyn yn barhaus i adolygu ein harferion i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol.

Dylai'r Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws ar gyfer Ysgolion gael ei ddefnyddio gan staff a llywodraethwyr ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Bro Morgannwg. Bydd peth o'r cynnwys a'r egwyddorion o ddefnydd hefyd i Leoliadau Addysg

Bellach a'r Blynyddoedd Cynnar.  Mae croeso i ysgolion annibynnol o fewn ein Sir ei ddefnyddio.

Bydd o ddiddordeb arbennig i uwch arweinwyr sy'n ymwneud â datblygu ac arwain polisi ysgol gyfan ar draws ystod o feysydd ymarfer ac i staff bugeiliol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc traws. Fodd bynnag, dylai pob aelod o gymuned yr ysgol gael lefel briodol o ymwybyddiaeth traws (gweler adrannau 4.2 a 4.3 am wybodaeth am rôl llywodraethwyr a hyfforddiant staff), gyda lefel yr ymwybyddiaeth yn cael ei phennu gan y rôl a'r cyd-destun.

## *1.2 Trosolwg*

Mae lleoliadau addysg yn gymunedau amrywiol sy'n adlewyrchu cymdeithas ehangach ac yn fannau lle mae plant a phobl ifanc yn dysgu am werthfawrogi a pharchu eu hunain ac eraill. Mae plant a phobl ifanc yn treulio llawer iawn o amser yn y lleoliadau hyn a dylent deimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain ynddyn nhw.

Mae gan ysgolion a lleoliadau addysg gyfrifoldeb i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd yn eu gofal yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial a bod y fersiwn orau ohonyn nhw eu hunain. Yn gyffredinol, bydd plant a phobl ifanc traws ac anneuaidd yn grŵp bach o fewn cymuned ysgol, ond yn un a allai fod yn agored i niwed.

Mae'r Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws ar gyfer Ysgolion yn ganllaw gan Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol.  Bydd lleoliadau addysg yn penderfynu i ba raddau y mae'r canllaw'n cefnogi eu gwerthoedd a'u hethos.

Mae rhestr termau yn adran 2.2 isod. Yma mae'n ddigon i ddweud y gellir deall y term "trawsryweddol" neu "traws" fel "term ymbarél i bobl y mae eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth".[1] Mae'r pecyn cymorth hwn yn defnyddio'r ymadrodd "rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth" yn unol â Chyfrifiad 2021[2], ac eithrio lle mae'n dyfynnu ffynonellau eraill.  Mae rhyw unigolyn yn cael ei gofrestru ar enedigaeth yn seiliedig ar ei nodweddion corfforol yn y groth ac ar enedigaeth.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol egluro ar y pwynt hwn bod "rhywedd" yn cyfeirio at y nodweddion a ddatblygwyd gan gymdeithas o fenywod a dynion (merched a bechgyn) gan

---

[1] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/whatisthedifferencebetweensexandgender/2019-02-21 (Adalwyd 14.5.2020)

[2] Cyfrifiad 2021 https://census.gov.uk/help/how-to-answer-questions/online-questions-help/is-the-gender-you-identify-with-the-same-as-your-sex-registered-at-birth

gynnwys y normau a briodolir iddynt, y rolau y disgwylir iddynt eu chwarae a'r berthynas a ddisgwylir i fodoli rhyngddynt. Mae disgwyliadau ar sail rhywedd yn amrywio rhwng diwylliannau ac yn gallu newid dros amser. Yn olaf, at ddibenion y trosolwg hwn, defnyddir y term "hunaniaeth rhywedd" yn y pecyn cymorth hwn i gyfeirio at ganfyddiad mewnol person o'i hun, na fydd efallai'n cyd-fynd â'i ryw a gofrestrwyd ar ei enedigaeth. Nid yw pawb yn ystyried bod ganddynt hunaniaeth rhywedd benodol, ac mae rhai yn ystyried bod y cysyniad o "rywedd" yn rhywbeth allanol a bennwyd gan gymdeithas yn hytrach na rhywbeth mewnol. Ond i eraill mae hunaniaeth rhywedd yn ganolog i'r ddealltwriaeth o hunaniaeth traws.

Mae llawer o bobl nad ydynt yn ystyried rhywedd (a brofir yn fewnol) fel rhywbeth deuaidd ond yn hytrach yn ei ystyried fel rhywbeth sy'n bodoli ar sbectrwm ac mae niferoedd cynyddol o bobl yn uniaethu fel unigolyn rhywle ar hyd continwwm rhwng dyn a menyw, neu fel rhywun heb rywedd (ddim yn ddyn na menyw). Nid yw'r cysyniad o fod yn anneuaidd yn newydd ac mae wedi bodoli ers blynyddoedd lawer ar draws ddiwylliannau gwahanol ledled y byd.[3]

Gall plant a phobl ifanc sy'n credu bod eu hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg eu genedigaeth brofi lefelau uchel o bryder, ac mae hynny'n wir am eu teuluoedd hefyd. Mae rhai astudiaethau wedi canfod bod pobl ifanc traws mewn mwy o berygl o hunan-niweidio a hunanladdiad (gweler Atodiad 2), a hefyd wedi canfod bod y risg hon yn cael ei lleihau'n sylweddol pan fydd y person ifanc yn cael ei gefnogi'n effeithiol[4]. Mae'r Coleg Brenhinol Paediatreg a Gofal Iechyd Plant yn cydnabod, yn yr un modd â'r Cyngor, "y gwahaniaethu sy'n codi o ganlyniad i wybodaeth gamarweiniol a rhagfarnllyd, a'r niwed sylweddol ychwanegol y gall hyn ei achosi i blant a phobl ifanc LHDT+ a'u teuluoedd"[5].

Mae creu amgylcheddau dysgu diogel, cynhwysol yn hanfodol felly er mwyn lleihau ac atal niwed i blant a phobl ifanc traws a phlant a phobl ifanc sy'n amrywiol o ran rhywedd i'r graddau y gallant ddysgu a ffynnu yn yr ysgol.

Bydd barn, profiad, anghenion a thaith pob plentyn a pherson ifanc traws yn wahanol, a dylid ymgynghori â nhw a'u cynnwys yn y gefnogaeth a gynigir iddyn nhw.

Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc sydd â gwahaniaethau
o ran datblygiad rhyw, er mae'n bosibl y bydd rhai o'r arferion cynhwysol sy'n cael eu

[3] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/whatisthedifferencebetweensexandgender/2019-02-21 (Adalwyd 14.5.2020)
[4] https://www.sciencedirect.com/science/article/abs/pii/S1077722918300385
[5] https://www.rcpch.ac.uk/resources/supporting-lgbtq-children-young-people#key-messages-for-health-professionals (cyrchwyd 24.9.20)

hamlinellu o gymorth iddyn nhw. Nid yw pob rhan o'r canllaw hwn chwaith yn cyfeirio at yr holl blant a phobl ifanc traws ac sy'n amrywiol o ran rhywedd.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cydnabod y bydd staff a llywodraethwyr traws ac sy'n amrywiol o ran rhywedd yn ysgolion Bro Morgannwg. Mae adran 7 yn cyfeirio at adnoddau a allai fod o gymorth i greu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi'r aelodau hyn o'r gymuned.

Mae cynnwys pobl draws yn un rhan o agenda cydraddoldeb llawer ehangach i ysgolion. Mae'r pecyn cymorth hwn yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc traws am y rhesymau a nodir yn y datganiad cyd-destun yn Atodiad 1. Mae cefnogi disgyblion a myfyrwyr traws ac sy'n amrywiol o ran rhywedd yn un rhan hanfodol yn unig o ymdrechion i ddathlu gwahaniaeth a mynd i'r afael â phob math o wahaniaethu, gan gynnwys homoffobia, deuffobia, rhagfarn ar sail rhyw, hiliaeth, rhagfarn ar sail crefydd (neu ei absenoldeb) a galluogiaeth. Am arweiniad a hyfforddiant ar y meysydd gwaith pwysig hyn cysylltwch â'r Tîm Diogelu yn y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau.

## *1.3 Sut i ddefnyddio'r Pecyn Cymorth*

Bydd gwahanol adrannau o'r Pecyn Cymorth yn berthnasol i wahanol aelodau o staff yn dibynnu a yw eu rôl yn fugeiliol neu'n seiliedig ar y cwricwlwm. Argymhellir bod gan o leiaf un aelod o staff ac un aelod o'r corff llywodraethu wybodaeth fanwl am gynnwys y pecyn cymorth.

Gellir addasu Atodiad 6 i adlewyrchu eich arferion ysgol a'u rhannu gyda staff i atgyfnerthu eich dull o gefnogi plant a phobl ifanc traws. Yn Atodiad 7 fe welwch offeryn archwilio a chynllunio gweithredu a allai ddarparu man cychwyn defnyddiol i ddatblygu arferion cynhwysol traws.

Atgoffir lleoliadau addysg, pryd bynnag y gwneir newidiadau sylweddol i bolisïau, bod yn rhaid rhoi sylw dyledus i oblygiadau cydraddoldeb gwneud penderfyniadau (Gweler adran 3 ac Atodiad 3) a rhaid dilyn gweithdrefnau diogelu.

Nid yw'r canllaw hwn yn cynnwys pob sefyllfa bosibl. Mae lleoliadau ac ysgolion yn cael eu hannog i ofyn am gyngor pellach os oes angen, gan Swyddog Diogelu Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg, neu Dîm Cydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg.

### 1.4 Egwyddorion a negeseuon sylfaenol yn y pecyn cymorth

- Dylai lleoliadau addysg barhau i ddatblygu polisïau ac arferion cydraddoldeb a gwrth-fwlio effeithiol ar draws holl nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn unol â gwerthoedd ac ethos y lleoliad.
- Mae amrywiaeth [cydnabod amrywiaeth] mewn lleoliadau addysg yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddysgu am fywyd ym Mhrydain fodern a'u paratoi ar ei gyfer. Mae atal stereoteipio o ran rhywedd, rhagfarn ar sail rhyw, homoffobia a deuffobia yn ganolog i leihau ac atal trawsffobia.
- Gall trawsffobia a bwlio gyfrannu at ganlyniadau iechyd meddwl gwael i blant a phobl ifanc traws (gweler Atodiad 2).
- Mae mwy nag un ffordd o fod yn fachgen neu ferch.
- Mae hunaniaethau'n datblygu drwy gydol plentyndod a llencyndod ac wrth droi'n oedolyn, a gall rhai plant a phobl ifanc archwilio a mynegi eu hunaniaethau rhywedd mewn ffyrdd gwahanol. Gall hyn ddechrau o oedran ifanc a gall newid dros amser
- Dylai plant a phobl ifanc allu archwilio eu hunaniaethau, cael eu derbyn a newid eu meddyliau.
- Dylid rhoi cefnogaeth i blant a phobl ifanc traws unigol fesul achos mewn trafodaeth â nhw, eu teulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Efallai y bydd angen cefnogaeth ar aelodau'r lleoliad addysg wrth ddatblygu dealltwriaeth o hunaniaethau a phrofiadau traws ac sy'n amrywiol o ran rhywedd ac mae angen i leoliadau addysg ystyried sut i ddarparu/ sicrhau cefnogaeth o'r fath a sicrhau diogelwch pawb.
- Nid yw'r canllawiau hyn yn rhoi cyngor ar unrhyw faterion meddygol sy'n ymwneud â thrawsnewid rhywedd. Mae penderfyniadau ac arweiniad am faterion meddygol yn cael eu gwneud y tu allan i leoliadau addysg gan y GIG. Y porth cyffredinol cydnabyddedig i wasanaethau'r GIG yw drwy'r gwasanaeth meddygon teulu.

# 2 Datblygu dealltwriaeth o blant a phobl ifanc traws ac sy'n amrywiol o ran rhywedd

### 2.1 Cyflwyniad i dermau

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o gysyniadau a therminoleg allweddol a ddefnyddir yn y pecyn cymorth hwn.

Mae iaith yn newid yn gyson ac nid yw pawb yn cytuno gyda'r diffiniadau a ddefnyddir yma. Caiff yr adran hon ei hadolygu’n rheolaidd.

Mae hunaniaeth yn bersonol ac yn unigol a gall newid. Mae'r termau ymbarél 'traws' ac 'anneuaidd' yn cael eu derbyn yn gyffredinol, ond dylid caniatáu i ddisgyblion a myfyrwyr hunan-ddisgrifio. Mae rhai plant a phobl ifanc yn teimlo bod ganddynt rywedd gwahanol i'r rhyw a gofrestrwyd ar eu genedigaeth. Fel y nodir uchod, defnyddir y term "hunaniaeth rhywedd" yn y pecyn cymorth hwn i gyfeirio at ganfyddiad mewnol person o'i hun, na fydd efallai'n cyd-fynd â'i ryw a gofrestrwyd ar ei enedigaeth.

Fel arfer, mae rhyw yn cael ei gofrestru ar enedigaeth yn seiliedig ar organau rhywiol allanol plentyn, ond fe'i defnyddir hefyd i gyfeirio at gromosomau yn ogystal â hormonau a nodweddion rhyw eilaidd na fydd yn dod yn amlwg tan y bydd y plentyn yn hŷn. Mae lefelau hormonau, organau rhywiol a nodweddion rhyw eilaidd yn newid trwy gydol oes person, ac mae rhai pobl draws yn defnyddio ymyrraeth feddygol i geisio cysoni lefelau eu hormonau, organau rhywiol a/neu nodweddion rhyw eilaidd gyda'u hunaniaeth rhywedd.

## *2.2 Diffiniadau allweddol*

### Dysfforia rhywedd

Term sy'n disgrifio ymdeimlad o anesmwythder y gallai person ei gael oherwydd camgymhariad rhwng ei ryw biolegol a'i hunaniaeth rhywedd yw dysfforia rhywedd. Gall yr ymdeimlad hwn o anesmwythder neu anfodlonrwydd fod mor ddwys y gall arwain at iselder a gorbryder a chael effaith niweidiol ar fywyd bob dydd[6].

### Rhywedd a Hunaniaeth Rhywedd

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn dweud:

> Mae rhywedd yn cyfeirio at nodweddion a ddatblygwyd gan gymdeithas o fenywod a dynion – fel normau, rolau a chysylltiadau rhwng grwpiau o fenywod a dynion. Mae normau, rolau a chysylltiadau rhywedd yn amrywio o gymdeithas i gymdeithas ac yn esblygu dros amser. Maent yn aml yn cael eu cynnal a'u hatgynhyrchu yng ngwerthoedd, deddfwriaeth, systemau addysg, crefydd, cyfryngau a sefydliadau eraill y gymdeithas y maent yn bodoli ynddi. Pan nad yw unigolion neu grwpiau yn "ffitio" normau rhywedd sefydledig maent yn aml yn wynebu stigma, arferion gwahaniaethol neu waharddiad cymdeithasol – sydd i gyd yn cael effaith andwyol ar iechyd. Mae rhywedd hefyd yn hierarchaidd ac yn aml yn adlewyrchu cysylltiadau anghyfartal o

[6] GIG Dysfforia rhywedd - GIG (www.nhs.uk) (Adalwyd 9.12.20)

bŵer, gan gynhyrchu anghydraddoldebau sy'n cydblethu ag anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd eraill.

Mae rhywedd yn rhyngweithio â rhyw ond mae'n wahanol i ryw. Mae'r ddau derm yn wahanol ac ni ddylid eu defnyddio'n gyfnewidiol. Gall fod yn ddefnyddiol meddwl am ryw fel nodwedd fiolegol a rhywedd fel rhywbeth a ddatblygwyd gan gymdeithas. Mae rhyw yn cyfeirio at set o briodoleddau biolegol mewn pobl ac anifeiliaid. Mae rhyw yn cael ei gysylltu'n bennaf â nodweddion ffisegol a ffisiolegol gan gynnwys cromosomau, mynegiant genynnau, lefel a swyddogaeth hormonau, ac anatomi atgenhedlu a rhywiol.

Mae hunaniaeth rhywedd yn cyfeirio at brofiad cynhenid, mewnol ac unigol person o rywedd, a allai gyfateb i ffisioleg neu ryw dynodedig ar enedigaeth y person neu beidio.[7]

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud:

- Mae hunaniaeth rhywedd yn ganfyddiad personol, mewnol o'i hun ac felly efallai nad yw'r categori rhywedd y mae rhywun yn uniaethu ag ef yn cyd-fynd â'r rhyw a neilltuwyd iddo ar enedigaeth
- Gall unigolyn ystyried ei hun fel dyn, menyw, fel rhywun heb unrhyw rywedd, neu rywun â rhywedd anneuaidd – lle mae pobl yn uniaethu fel rhywun sydd rywle ar sbectrwm rhwng dyn a menyw[8]

## Cydryweddol neu cis

Rhywun y mae ei hunaniaeth rhywedd yr un fath â'r rhyw a gofrestrwyd ar ei enedigaeth. Defnyddir y term “heb fod yn draws” gan rai pobl.[9]

## Mynegiant rhywedd

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn dweud:

Mae mynegiant rhywedd yn cyfeirio at y modd y mae unigolyn yn mynegi ei hunaniaeth rhywedd, gan gynnwys gwisg a lleferydd. Nid yw mynegiant rhywedd bob amser yn arwydd o hunaniaeth rhywedd.[10]

---

[7] *WHO, Rhywedd ac Iechyd,* https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/gender-and-health (Adalwyd 6.7.22).

[8] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/whatisthedifferencebetweensexandgender/2019-02-21 (Adalwyd 14.5.2020)

[9] Stonewall https://www.stonewall.org.uk/help-advice/glossary-terms (Adalwyd 14.5.20)

[10] *WHO, Rhywedd ac Iechyd,* https://www.who.int/news-room/questions-and-answers/item/gender-and-health (Adalwyd 6.7.22).

Nid yw person nad yw'n cydymffurfio â disgwyliadau cymdeithasol o ran rhywedd, o reidrwydd yn uniaethu fel person traws.[11]

Mae'n gyffredin iawn i blant arbrofi ac archwilio drwy wisgo lan. Bydd llawer o blant yn 'gwisgo lan' mewn dillad sy'n cael eu hystyried fel rhai ar gyfer rhywedd gwahanol ac ni fyddai hyn ar ei ben ei hun yn golygu eu bod yn draws. Y tu allan i gyd-destun gwisgo lan, efallai y bydd bachgen sy'n gwisgo ffrog yn cymryd rhan mewn mynegiant rhywedd heb ddweud ei fod yn draws. Mae ysgolion yn gallu chwarae rhan wrth normaleiddio, er enghraifft, bechgyn gyda gwallt hir neu'n gwisgo gemwaith heb honni eu bod yn hoyw neu'n draws.

Dylid herio unrhyw ragfarn a fynegir i blentyn, person ifanc neu oedolyn oherwydd ei fynegiant rhywedd (er enghraifft, yr hyn y mae'n ei wisgo) neu oherwydd nad yw'n cydymffurfio â'r rhywiau.

### Stereoteipio o ran rhywedd

Mae Uwch Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn esbonio bod 'stereoteipio o ran rhywedd yn cyfeirio at yr arfer o briodoli priodoleddau, nodweddion, neu rolau penodol i fenyw neu ddyn yn ôl ei aelodaeth ef neu hi yn y grŵp cymdeithasol o fenywod neu ddynion yn unig".[12]

Mae stereoteipio o ran rhywedd yn dod yn niweidiol pan fydd yn cyfyngu ar allu unigolyn i ddatblygu, gwneud dewisiadau a dilyn gyrfaoedd y tu allan i stereoteip.

Gellir niweidio lles bechgyn a merched drwy stereoteipio[13]. Bydd pob lleoliad addysg eisiau atal a herio stereoteipio o ran rhywedd a rhannu'r neges bod sawl ffordd o fod yn ferch neu'n fachgen. Bydd y dull hwn o fudd i les a dyheadau pob plentyn a pherson ifanc ac yn cyfrannu at leihau ac atal rhagfarn ar sail rhyw, homoffobia, deuffobia a thrawsffobia. Bydd y gwaith hwn hefyd o fudd i blant a phobl ifanc traws ac anneuaidd oherwydd gall disgwyliadau afrealistig ynghylch beth mae'n ei olygu i fod yn ddyn, menyw, bachgen neu ferch mewn

[11] Geirfa Stonewall https://www.stonewall.org.uk/help-advice/glossary-terms (Adalwyd 14.5.20)
[12] https://www.ohchr.org/en/women/gender-stereotyping, adalwyd 6.7.22.
[13] Cymdeithas y Plant Sut mae rolau a stereoteipiau o ran rhywedd yn effeithio ar bobl ifanc https://www.childrenssociety.org.uk/what-we-do/blogs/how-gender-roles-affect-young-people (Adalwyd 2.12.20)

cymdeithas wneud niwed i'r rhai nad ydyn nhw'n cydymffurfio â'r disgwyliadau rhyweddol a osodir arnynt.

## IRhyngrywiol neu wahaniaethau mewn datblygiad rhyw (GDRh)

“Mae pobl rhyngrywiol yn unigolion y mae eu hanatomi neu ffisioleg yn wahanol i stereoteipiau diwylliannol cyfoes o'r hyn sy'n gyfystyr â gwryw a benyw nodweddiadol"[14]. "Mae gwahaniaethau mewn datblygiad rhyw (GDRh) yn grŵp o gyflyrau prin sy'n cynnwys genynnau, hormonau ac organau atgenhedlu gan gynnwys organau rhywiol. Mae'n golygu bod datblygiad rhyw person yn wahanol i’r rhan fwyaf o bobl eraill"[15].

## Anneuaidd

“Term ymbarél ar gyfer pobl nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn cyd-fynd yn gyfforddus â ‘dyn’ neu ‘fenyw’. Mae rhyweddau a hunaniaethau anneuaidd yn amrywiol a gallant gynnwys pobl sy'n uniaethu â rhai agweddau ar hunaniaethau deuaidd, tra bod eraill yn bodoli yn gyfan gwbl y tu allan i’r categorïau hyn.”[16] Gall pobl anneuaidd ddefnyddio'r rhagenw 'nhw' ond gallant hefyd ddefnyddio 'ef', 'hi' neu ragenw arall. Nid yw rhagenwau o reidrwydd yn cyfateb i rywedd, er enghraifft efallai y bydd gan berson rywedd anneuaidd ond yn defnyddio’r rhagenwau 'ef' neu 'hi'.




## Cyfeiriadedd

"Term ymbarél yw cyfeiriadaeth sy'n disgrifio atyniad person i bobl eraill. Gall yr atyniad hwn fod yn rhywiol (cyfeiriadedd rhywiol) a neu'n rhamantaidd (cyfeiriadedd rhamantaidd). Mae'r termau hyn yn cyfeirio at ymdeimlad person o hunaniaeth yn seiliedig ar ei atyniadau, neu ddiffyg atyniadau."[17] Gall pobl draws ac sy’n amrywiol o ran rhywedd, fel pawb arall, gael sawl cyfeiriadedd rhywiol.

[14] Cymdeithas Rhyngrywiol y Deyrnas Unedig http://www.ukia.co.uk/about.html (Adalwyd 4.12.20)
[15] GIG Gwahaniaethau mewn datblygu rhyw - GIG (www.nhs.uk)
[16] Stonewall https://www.stonewall.org.uk/help-advice/glossary-terms (Adalwyd 14.5.20)
[17] Stonewall https://www.stonewall.org.uk/help-advice/glossary-terms (Adalwyd 14.5.20)

## Rhyw

Dywed y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod llywodraeth y DU yn diffinio rhyw fel a ganlyn:

- yn cyfeirio at agweddau biolegol unigolyn fel a bennir gan ei anatomi, a gynhyrchir gan ei gromosomau, hormonau a'i ryngweithio
- yn wrywaidd neu fenywaidd yn gyffredinol
- rhywbeth sy'n cael ei neilltuo ar enedigaeth[18].

## Traws ac amrywiol o ran rhywedd

Term ar gyfer pobl y mae eu "hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd ar enedigaeth"[19] gan gynnwys y rhai sy'n uniaethu fel:

- trawsryweddol
- rhywedd cwiar
- (i fod â) rhywedd cyfnewidiol
- anneuaidd
- gwryw a benyw (gall hyn fod ar yr un pryd neu dros amser)
- heb fod yn wrywaidd nac yn fenywaidd
- trydydd rhywedd
- neu rywun sydd â hunaniaeth rhywedd nad oes gennym eiriau i'w disgrifio ar hyn o bryd

Mae gan lawer o ddiwylliannau ar draws y byd system rhywedd wahanol i'r byd gorllewinol. Efallai na fydd person sy'n uniaethu fel rhywedd o fewn ei ddiwylliant nad yw'n bodoli o fewn diwylliant y DU yn uniaethu fel person traws, er gallai eraill.

## Bachgen neu ddyn traws

Person a gofrestrwyd fel benyw ar enedigaeth ond sy'n uniaethu fel bachgen neu ddyn.

## Merch neu fenyw draws

Person a gofrestrwyd fel gwryw ar enedigaeth ond sy'n uniaethu fel merch neu fenyw.

[18] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/whatisthedifferencebetweensexandgender/2019-02-21 (Adalwyd 14.5.2020)
[19] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol https://www.ons.gov.uk/economy/environmentalaccounts/articles/whatisthedifferencebetweensexandgender/2019-02-21 (Adalwyd 14.5.2020)

**Trawsnewid**

"Y camau y gall person traws eu cymryd i fyw yn y rhywedd y maent yn uniaethu ag ef. Bydd trawsnewidiad pob unigolyn yn golygu pethau gwahanol. Gallai trawsnewid gynnwys pethau fel dweud wrth ffrindiau a theulu, gwisgo'n wahanol, a newid dogfennau swyddogol."[20] I rai mae hyn yn hefyd yn cynnwys ymyrraeth feddygol, fel meddyginiaeth atal y glasoed, therapi hormonau a llawdriniaethau, ond nid yw pob person traws eisiau hyn neu'n gallu eu cael. Ni all person ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd gael llawdriniaeth yn y DU tan ei fod yn oedolyn.

**Cofiwch**

- Mae iaith yn gallu newid dros amser
- Dylai unigolion gael hunan-ddisgrifio
- Bydd plant a phobl ifanc yn archwilio eu hunaniaeth a'u mynegiant rhywedd mewn amryw o ffyrdd; nid yw hyn o reidrwydd yn golygu eu bod yn berson traws
- Mae hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a mynegiant rhywedd i gyd yn sbectra, ac mae pob un yn disgrifio pethau gwahanol

# 3 Cyd-destun cyfreithiol

## *3.1 Deddf Cydraddoldeb, 2010*

Diffinnir ailbennu rhywedd gan y Ddeddf Cydraddoldeb fel a ganlyn:

> *Mae gan berson nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd os yw'r person hwnnw yn cynnig ymgymryd â, wrthi'n ymgymryd â neu wedi ymgymryd â phroses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu rhyw'r person trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau rhyw eraill.* [21]

Ni fydd gan bob plentyn neu berson ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd er y bydd llawer yn gwneud hynny. Mae'r achos perthnasol diweddaraf yn awgrymu bod y term yn ddigon eang i gwmpasu:

(1) y rhai nad yw eu trawsnewidiad yn feddygol ond sy'n cynnwys 'newid agweddau anffisiolegol ar ryw, fel enw rhywun a/neu sut mae rhywun yn gwisgo dillad neu wallt, neu'n siarad neu'n gweithredu';

[20] Stonewall https://www.stonewall.org.uk/help-advice/glossary-terms (Adalwyd 14.5.20)

[21] Adran 7 y Ddeddf Cydraddoldeb https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/7 (Adalwyd 19.5.20)

(2) y rhai sy'n 'bwriadu mynd trwy'r broses', yn ogystal â'r rhai sy'n cael neu wedi cael, y cyfan neu ran o broses 'ailbennu ... rhyw', cyn belled â'u bod wedi gwneud 'penderfyniad ymwybodol, y gellir ei ddisgrifio'n briodol fel un sydd wedi'i setlo, i fabwysiadu rhyw agwedd ar hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r hyn a neilltuwyd ar enedigaeth. Nid yw mympwy byrhoedlog yn gwneud y tro, ond nid oes angen bwriad chwaith y dylai'r newid fod yn barhaol'.[22]

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu amddiffyniad rhag gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran nodwedd warchodedig 'ailbennu rhywedd' a'r amddiffyniad tebyg i'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- oedran (ar gyfer staff yn unig)
- anabledd
- priodas a phartneriaeth sifil (ar gyfer staff yn unig)
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol[23]




Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei wneud yn ofynnol i ddisgyblion sydd â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd gael eu trin fel pe baent o ryw ac eithrio'r hyn sydd wedi'i gofrestru ar eu genedigaeth. Nid yw'n ofynnol chwaith i ddisgyblion o'r fath drawsnewid yn gymdeithasol yn yr ysgol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu nodwedd warchodedig. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn caniatáu i ysgolion ddarparu gofod a gweithgareddau un rhyw, ac i wahardd disgyblion o'r rhyw arall rhag eu gwneud waeth beth fo'u cyfeiriadedd rhywiol, os yw hyn yn gymesur â nod dilys. Gweler adran 6 am fwy ar ofod un rhyw mewn ysgolion.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn amddiffyn rhag aflonyddu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig (er nad yw, yn achos disgyblion, yn amddiffyn rhag aflonyddu sy'n gysylltiedig â

[22] *R (AA & Ors) v National Health Service Commissioning Board)* [2023] EWHC 43 (Admin), §§130-132.
[23] Sylwer nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd aflonyddu ar fyfyrwyr (yn wahanol i staff) oherwydd crefydd neu gred neu gyfeiriadedd rhywiol. Bydd rhywfaint o aflonyddu o'r fath fodd bynnag yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol ac felly'n cael ei wahardd.

chrefydd, cred neu aflonyddu rhywiol). Mae aflonyddu yn digwydd pan fydd person yn destun ymddygiad dieisiau gyda'r bwriad neu'r effaith o amharchu neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, bychanus neu sarhaus iddyn nhw.

Dylid nodi bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru "cred" fel nodwedd warchodedig. Mae gan hyn oblygiadau o ran i ba raddau y gallai fod yn ofynnol neu'n ddisgwyliedig i ddisgyblion, yn enwedig, "gadarnhau" hunaniaeth rhywedd traws. Yn ogystal, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi Erthygl 9 sy'n amddiffyn rhyddid crefydd a chred ac Erthygl 10 sy'n amddiffyn rhyddid mynegiant y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar waith yn y DU. Mae ysgolion yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf 1998 ac mae'n rhaid iddynt weithredu'n gyson â darpariaethau'r Confensiwn. Trafodir y materion hyn ymhellach isod.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys ysgolion i roi "sylw dyledus" i'r angen i (a) ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu; (b) datblygu cyfle cyfartal; a (c) meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a'r rheiny nad ydynt yn eu rhannu.[24] Mae cydymffurfio â'r ddyletswydd hon (y cyfeirir ati fel "Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus" neu "DCSC") yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ystyried goblygiadau cydraddoldeb posibl polisïau a phenderfyniadau mawr wrth ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau, nid fel ôl-ystyriaeth. Dylai lleoliadau addysg gadw cofnod o'u penderfyniadau, gan gynnwys ystyried goblygiadau cydraddoldeb, a dylent adolygu goblygiadau polisïau a phenderfyniadau mawr yn gyson.

## *3.3 Deddf Cydraddoldeb 2010 a disgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd yn lleoliadau addysg Bro Morgannwg*

P'un a yw myfyrwyr sy'n amrywiol o ran rhywedd yn dod o fewn nodwedd warchodedig "ailbennu rhywedd" ai peidio,[25] mae ganddynt hawl (fel disgyblion eraill) i gael eu hamddiffyn rhag pob math o fwlio. Byddant hefyd yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu ar sail eu hailbennu rhywedd tybiedig, a/neu eu cysylltiad ag eraill. Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010: cyngor i ysgolion* yn nodi bod:

---

[24] Adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149 (Adalwyd 13.10.22)

[25] Awgrymodd tribiwnlys cyflogaeth yn *Taylor v Jaguar Land Rover Ltd*, 1304471/2018 fod nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd yn ymestyn i bobl anneuaidd ond nid yw'n glir bod hyn yn gyson â'r iaith statudol ac nid yw penderfyniad y tribiwnlys yn creu cynsail rhwymol.

> Mae angen i ysgolion wneud yn siŵr nad yw disgyblion sy’n amrywiol o ran rhywedd, na phlant rhieni trawsryweddol, yn cael eu trin yn wahanol / llai ffafriol i ddisgyblion eraill. Dylen nhw sicrhau nad oes unrhyw arferion a allai arwain at driniaeth annheg, lai ffafriol i ddisgyblion o'r fath.[26]

## 3.3 Diogelu

Mae diogelu iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc yn hollbwysig. Gall rhai plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd fod yn arbennig o agored i niwed ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Mae Cadw Dysgwyr yn Ddiogel (llyw.cymru) yn amlygu sut mae camdriniaeth emosiynol “a all gynnwys bwlio difrifol" yn fater diogelu. Mae nifer uwch yr achosion o fwlio sy'n debygol o gael eu profi gan blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd, a amlinellir yn Atodiad 2, yn golygu y dylai mynd i'r afael â bwlio trawsffobig fod yn flaenoriaeth uchel i bob ysgol a lleoliad addysg.

Nid oes unrhyw ddarpariaethau mewn deddfwriaeth amddiffyn plant a diogelu sy'n benodol i blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd ar wahân i'r hyn sydd ar waith i gadw pob disgybl a myfyriwr yn ddiogel. Dylai lleoliadau ddilyn eu polisïau diogelu arferol gan gofio nad yw bod yn berson traws ac amrywiol o ran rhywedd ynddo'i hun yn fater diogelu. Dylai pob ysgol ddilyn y canllaw diogelu statudol *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* 2022.[27]

## 3.4 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn datgelu ei statws traws ac amrywiol o ran rhywedd yn y lle cyntaf, mae’n bwysig siarad ag ef am gyfrinachedd a gofyn gyda phwy, os unrhyw un, yr hoffai rannu gwybodaeth. Dylai'r aelod o staff wneud yn glir y bydd angen iddo rannu'r wybodaeth gydag o leiaf un aelod arall o staff hyfforddedig ac yna drafod pwy arall fydd yn cael gwybod. Yn unol â pholisïau bugeiliol, byddai'n arfer da cadw cofnod o'r gefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd.

Bydd y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd yn gweithio mewn partneriaeth â'r ysgol a'u plentyn i gynllunio a darparu cymorth yn briodol (gweler adran 5). Bydd lleoliadau'n annog disgyblion a myfyrwyr i siarad â'u rhieni a'u gofalwyr am eu statws traws neu gwestiynu eu rhywedd, gan gynnwys cynnig siarad â'r

---

[26] Deddf Cydraddoldeb; Cyngor i Ysgolion (2018) tud 17 https://www.gov.uk/government/publications/equality-act-2010-advice-for-schools (Adalwyd 13.10.22)

[27] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf

rhiant neu'r gofalwr ar ran y plentyn. Hyd yn oed os yw'r penderfyniad ar gyfer trawsnewid cymdeithasol yn cael ei gefnogi gan rieni, mae gan yr ysgol ddyletswydd i ddiogelu'r dysgwyr a gofyn y cwestiwn i'w hunain a yw'r mater, er enghraifft, yn achos plentyn ifanc iawn, yn cael ei sbarduno gan y rhieni neu'r plentyn. Os penderfynir gan ysgolion i beidio â chefnogi trawsnewid cymdeithasol dysgwr (gyda chydsyniad rhieni neu hebddo), rhaid i ysgolion barhau i sicrhau bod y dysgwr yn cael ei amddiffyn rhag unrhyw fath o fwlio neu wahaniaethu.

Ac eithrio achosion sy'n ymwneud â chyfathrebu â rhieni, ni ddylid rhannu gwybodaeth am statws traws plentyn neu berson ifanc, ei enw cyfreithiol, neu'r rhyw a gofrestrwyd ar ei enedigaeth heb ganiatâd neu oni bai bod rheswm a ganiateir yn gyfreithiol dros wneud hynny. Dylai lleoliadau addysg ddilyn eu polisïau arferol sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth i gefnogi lles plentyn neu berson ifanc.

Mae'n bwysig ystyried lluniau a gwefannau ysgolion a cholegau i sicrhau nad yw'r delweddau hyn yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol. Os na chaiff delweddau ac enwau eu diogelu, efallai y cânt eu defnyddio'n ddiweddarach ym mywyd y person traws i 'ddatgelu' hynny. Sicrhewch fod pob plentyn neu berson ifanc (a'u rhieni a'u gofalwyr os yn briodol) yn ymwybodol o'r risgiau hyn ac yn cydsynio yn unol â hynny. O dan y GDPR mae gan unigolion hefyd yr hawl i gael eu data personol wedi'i dynnu.

Mae gan bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, hawl i breifatrwydd. Ni ddylai staff drafod plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd y tu allan i'r ysgol gyda ffrindiau neu aelodau o'r teulu, gallai cyfeiriad diofal hyd yn oed at blentyn neu berson ifanc beryglu cyfrinachedd.

### *3.5 Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)*

Mae gofyn i ysgolion a lleoliadau addysg gydymffurfio â'r GDPR mewn perthynas â phob plentyn a pherson ifanc (fel "gwrthrychau data") a gwybodaeth adnabod yn bersonol yn ymwneud ag unigolion. Byddant yn ymwybodol o'r rheoliadau o ran prosesu a rhannu data personol. Mae data o'r fath yn cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n gallu adnabod person, neu ei deulu, ac mae'r math hwn o ddata yn parhau i fod yn "bersonol" hyd yn oed os yw unigolyn yn dewis rhoi cyhoeddusrwydd iddo.

O dan Erthygl 9 GDPR, mae 'data categori arbennig' yn ymwneud â phynciau mwy sensitif a allai beri risg sylweddol i breifatrwydd pobl sydd ond yn gallu cael ei brosesu o dan rai amodau.

Mae 'data categori arbennig' yn cynnwys data personol sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r canllaw hwn gan Swyddog Comisiynydd Gwybodaeth y DUyn rhoi mwy o wybodaeth am y data hwn.

Nid yw'r GDPR o reidrwydd yn atal prosesu neu rannu gwybodaeth bersonol, ond mae'n ei gwneud yn ofynnol bod pwrpas penodol a chyfyngedig ar gyfer gwneud hynny, bod y data a ddefnyddir yn gymesur â'r pwrpas hwnnw a'i fod yn cael ei storio a'i rannu'n ddiogel. Mae data categori arbennig yn destun rheolaethau ychwanegol. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn rhoi arweiniad defnyddiol ar y maes hwn. Mae'n hanfodol bod unrhyw un sy'n ystyried rhannu gwybodaeth bersonol sensitif am ddisgybl neu fyfyriwr yn ymwybodol o'r goblygiadau cyfreithiol o wneud hynny, a/neu'n cymryd cyngor priodol ar hynny.

## *3.6 Fframwaith Arolwg Addysg ESTYN*

O dan Fframwaith Arolwg Addysg ESTYN:

> Bydd arolygwyr yn asesu i ba raddau y mae'r ysgol neu'r darparwr yn cydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol perthnasol fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn cymryd camau cadarnhaol i atal unrhyw fath o wahaniaethu, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ym mhob agwedd ar eu gwaith.[28]




Bydd arolygwyr yn llunio barn ar ymddygiad ac agweddau trwy werthuso i ba raddau y mae:

- Arweinwyr, athrawon a dysgwyr yn creu amgylchedd lle na oddefir bwlio, camdriniaeth rhwng cyfoedion na gwahaniaethu.[29]

Yn ogystal, canllaw sy'n ei gwneud yn glir y gall fod angen cymryd camau diogelu i amddiffyn plant a dysgwyr rhag (er enghraifft):

- cam-drin corfforol
- cam-drin rhywiol
- cam-drin emosiynol
- bwlio, gan gynnwys bwlio ar-lein a bwlio ar sail rhagfarn
- cam-drin hiliol, anabledd a homoffobig neu drawsffobig

- trais ar sail rhywedd / trais yn erbyn menywod a merched
- aflonyddu rhywiol, cam-drin rhywiol ar-lein a thrais rhywiol rhwng plant a dysgwyr[30]

**Cofiwch**

Mae gwaith i atal trawsffobia a chefnogi plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd yn cael ei gefnogi gan ESTYN, dyletswyddau diogelu statudol a Deddf Cydraddoldeb 2010.

# 4 Dull Gweithredu Lleoliad Cyfan

## *4.1 Cyflwyniad*

Mae llawer o leoliadau addysg Bro Morgannwg eisoes yn gweithio i sicrhau bod amgylchedd a chwricwlwm yr ysgol yn dathlu tebygrwydd, gwahaniaeth ac amrywiaeth fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn gweld bod nhw eu hunain a'u teuluoedd yn cael eu cynrychioli a'u gwerthfawrogi. Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn rhoi arweiniad ar sut i sicrhau bod aelodau traws ac amrywiol o ran rhywedd o'r gymuned yn teimlo'r un croeso, yn cael eu cynrychioli ac yn ddiogel. Mae gan leoliadau addysg y sgiliau i gefnogi disgyblion a myfyrwyr sy'n agored i niwed a gellir defnyddio'r arfer hwn i lywio cefnogaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd.

Os defnyddir dull gweithredu lleoliad cyfan yna bydd achosion o fwlio ac aflonyddu ar ddisgyblion, myfyrwyr a staff traws ac amrywiol o ran rhywedd yng nghymuned yr ysgol yn cael eu hatal neu eu lleihau a bydd pob disgybl a myfyriwr yn cael eu paratoi ar gyfer bywyd yn y byd modern.

I gael arweiniad penodol ar greu amgylcheddau dysgu diogel i grwpiau eraill sydd wedi'u diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 cysylltwch â Thîm Diogelu’r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau

## *4.2 Rôl Llywodraethwyr*

Mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldebau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac ar gyfer diogelu, fel y disgrifir yn *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* 2022[31]. Argymhellir bod y Llywodraethwr Diogelu Dynodedig wedi mynychu hyfforddiant diogelu pwrpasol ar gyfer y rôl honno ac wedi

[31] https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf

darllen y pecyn cymorth hwn. Gallai'r corff llywodraethu ofyn cwestiynau fel y canlynol mewn cyfarfodydd llywodraethwyr:

- A allwn ni weld data ar fwlio a digwyddiadau ar sail rhagfarn yn ôl math?
- Beth sy'n cael ei wneud i herio stereoteipiau o ran rhywedd?
- Pa newidiadau sydd wedi'u gwneud i bolisïau ac arferion i gefnogi anghenion plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd? Ydy'r newidiadau hyn wedi bod drwy asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?
- Beth ydyn ni'n ei wneud i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a gofalwyr o ran ein harferion cydraddoldeb?

## 4.3 Hyfforddi staff

Mae angen i bob aelod o staff gael hyfforddiant sy'n datblygu ymwybyddiaeth traws ac amrywiol o ran rhywedd a hyder mewn terminoleg a geirfa e.e. defnydd priodol o ragenwau ac enwau, ac yn herio stereoteipiau o ran rhywedd, rhagfarn ar sail rhyw a thrawsffobia. Bydd angen hyfforddiant arbenigol ychwanegol ar staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd er mwyn cynnig cymorth bugeiliol.

Bydd angen cymorth ar athrawon i ddarparu sesiynau traws ac amrywiol o ran rhywedd ac i reoli'r drafodaeth.

- Argymhellir bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i staff er mwyn sicrhau eu bod yn cael dealltwriaeth well o'r materion, yr hyder i ddefnyddio'r pecyn cymorth a rhoi cefnogaeth briodol i ddisgyblion traws ac amrywiol o ran rhywedd. Bydd hyn yn arwain at brofiad mwy cadarnhaol i ddisgyblion traws ac amrywiol o ran rhywedd pan fydd angen cymorth arnynt. Mae'r awdurdod lleol yn cyrchu'r hyfforddiant hwn ac yn rhagweld ei gyflwyno yn 2024-25.

## 4.4 Y gymuned rhieni a gofalwyr

Y gobaith yw y bydd gan leoliadau addysg berthynas gadarnhaol â'r holl grwpiau o rieni a gofalwyr a byddant yn defnyddio ystod o ddulliau i chwalu unrhyw rwystrau i alluogi sgyrsiau agored a thryloyw am arferion cydraddoldeb. Dylai pob rhiant a gofalwr deimlo bod eu plentyn/plant a'u teulu yn cael eu cynrychioli o fewn y lleoliad.

Bydd lleoliadau addysg eisiau rhannu'r gwaith y maen nhw'n ei wneud i gefnogi cynnwys pobl draws gyda rhieni a gofalwyr yng nghyd-destun gwaith cydraddoldeb arall. Er enghraifft, wrth egluro gwaith ar gyfer Hanes LHDT efallai y bydd lleoliadau eisiau defnyddio

iaith fel a ganlyn: 'Fel rhan o'n gwaith i hybu gwerth parch yn ein hysgol rydyn ni...'; neu: 'Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella cydraddoldeb ac atal bwlio rydyn ni...'.

Gall lleoliadau ganfod bod rhieni a gofalwyr yn cysylltu â nhw am eu harferion cynhwysol ynghylch bod yn draws ac amrywiol o ran rhywedd. Gall lleoliadau wrando'n agored ac yn barchus ar unrhyw gwestiynau neu bryderon, darparu gwybodaeth nad yw'n torri cyfrinachedd unigolion traws ac amrywiol o ran rhywedd a chynnig y mathau canlynol o sicrwydd:

- Mae'r lleoliad yn cydnabod bod amrywiaeth barn am gynnwys pobl draws ac amrywiol o ran rhywedd  a bydd yn gwrando'n barchus ar bryderon.
- Mae'r lleoliad yn gweithio o fewn canllaw'r awdurdod lleol a Deddf Cydraddoldeb 2010 i atal ac ymateb i bob math o fwlio a rhagfarn a sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n ddiogel i ddysgu.
- Mae'r lleoliad yn paratoi plant a phobl ifanc ar gyfer bywyd ym Mhrydain fodern lle maen nhw'n mynd i gyfarfod a gweithio ochr yn ochr ag amrywiaeth o bobl.
- Mae'r lleoliad yn gweithio i ddatblygu ei arferion cydraddoldeb ar draws yr holl grwpiau gwarchodedig ac mae ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod pob grŵp yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cynrychioli a'u cynnwys.

Bydd unrhyw gwynion a wneir yn dilyn polisi cwynion yr ysgol. Gall lleoliadau addysg gysylltu â'r awdurdod lleol am bryderon a godir gan aelodau o gymuned yr ysgol.




## *4.5 Fframwaith Polisi*

Bydd lleoliadau addysg eisiau sicrhau bod yr holl bolisïau perthnasol yn cyfeirio'n briodol at ddisgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd a bod cyfeiriad, lle bo hynny'n briodol, at faterion rhyng-adrannol.  Mae rhai enghreifftiau o sut i wneud hyn yn Atodiad 5, ond nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

Yn Atodiad 7 fe welwch ddogfen y gellid ei haddasu a'i defnyddio fel crynodeb o ddull gweithredu eich ysgol yn ymwneud â chynnwys pobl draws.

## 4.6 Bwlio ac *aflonyddu trawsffobig a rhywiol*

Am ddiffiniadau o fwlio a rhagfarn a sgriptiau ar gyfer herio rhagfarn gweler Atodiad 4.  Efallai y bydd lleoliadau addysg hefyd eisiau bod yn ymwybodol

o sut mae'r hyn a elwir yn 'dynnu coes' neu jôcs yn cael eu defnyddio mewn grwpiau cyfoedion ac yn gallu achosi niwed.

Dylai lleoliadau addysg sicrhau eu bod yn adnabod, cofnodi, ymateb i bob math o fwlio a rhagfarn a'u monitro.

Mae cofnodi digwyddiadau yn golygu bod modd olrhain lles disgyblion a myfyrwyr unigol yn ogystal ag ymddygiad drwgweithredwyr. Gellir defnyddio'r data hwn hefyd, ynghyd â data o arolygon ysgol i dargedu ymyriadau ataliol a mesur effaith gweithgareddau.

Mae plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd yn agored i gael eu bwlio, yn yr un modd ag unrhyw blentyn neu berson ifanc nad yw'n cydymffurfio â normau a stereoteipiau o ran rhywedd. Yn ogystal, gall plant a phobl ifanc a chanddynt aelodau traws ac amrywiol o ran rhywedd o'r teulu gael eu bwlio'n drawsffobig hefyd. Felly, gall bwlio trawsffobig gael ei gyflawni gan ddisgyblion, myfyrwyr, rhieni, gofalwyr neu aelodau o staff a chael ei gyfeirio at:

- Blant, pobl ifanc ac oedolion nad ydynt yn cydymffurfio â stereoteipiau o ran rhywedd neu'r rhai y tybir eu bod yn draws neu'n amrywiol o ran rhywedd.
- Plant, pobl ifanc ac oedolion traws ac amrywiol o ran rhywedd yn yr ysgol, y tu allan i'r ysgol ac ar-lein.
- Plant a phobl ifanc a chanddynt frodyr a chwiorydd, rhieni, perthnasau neu ffrindiau traws
- Plant, pobl ifanc ac oedolion lesbiaidd, hoyw a deurywiol.

Fel mesur ataliol allweddol ar gyfer bwlio trawsffobig, dylai lleoliadau sicrhau bod y cwricwlwm, gwasanaethau ac arddangosiadau yn cael eu defnyddio i atal a herio stereoteipiau o ran rhywedd a rhagfarn ar sail rhyw. Un o'r rhesymau pam bod stereoteipio o ran rhywedd yn niweidiol yw ei fod yn awgrymu y dylai bechgyn a merched gyflwyno eu hunain mewn ffyrdd penodol, ac y gallai methu â chydymffurfio â stereoteipio o ran rhywedd arwain at fwlio ac aflonyddu.

Mae gan *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* 2022 bwyslais cryf ar atal ac ymateb i gamdriniaeth rhwng cyfoedion ac mae'n cydnabod natur ryweddol rhai mathau o gamdriniaeth mewn ysgolion. Gallai lleoliadau addysg hefyd gyfeirio at gyhoeddiad diweddar adroddiad Estyn Rhagfyr 2021 (*Profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion*

*uwchradd yng Nghymru - Adnoddau ategol* (llyw.cymru), ynghyd ag ymateb ac argymhellion Llywodraeth Cymru Ionawr 2022[32].

Bydd nodi natur unrhyw fwlio yn cynorthwyo'r ysgol i ddeall ac yna mynd i'r afael ag unrhyw dueddiadau yn y gymuned ysgol. Nid yw bwlio rhywiaethol, rhywiol neu dransffobig yr un peth â bwlio homoffobig neu ddeuffobig.  Fodd bynnag, yn aml iawn, mae agweddau rhywiaethol yn amlygu eu hunain mewn bwlio homoffobig a gallai unrhyw blentyn neu berson ifanc yr ystyrir nad ydynt yn mynegi nodweddion gwrywaidd neu fenywaidd ystrydebol sy’n ddisgwyliedig o’u rhyw brofi bwlio homoffobig neu drawsffobig.

Bydd angen i staff ddefnyddio eu barn broffesiynol ynghylch a ddylid cofnodi rhai achosion fel rhai homoffobig neu drawsffobig, ond gofalwch nad ydych yn tangofnodi achosion o fwlio trawsffobig.

Gall bwlio trawsffobig hefyd ddigwydd ar y cyd â mathau eraill o fwlio, gan gynnwys bwlio yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau neu seiber-fwlio.  Gall disgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd yn arbennig gael eu targedu gydag ymddygiadau fel 'codi sgert', 'teimlo' neu gael pobl yn gofyn cwestiynau amhriodol, personol iddynt. Unwaith eto, dylai lleoliadau addysgol fod yn wyliadwrus wrth atal ac ymateb i bob math o aflonyddu a bwlio rhywiol.

Os bydd digwyddiad trawsffobig yn digwydd mewn sefyllfa grŵp a bod yr aelod o staff sy'n delio ag ef yn ymwybodol bod y plentyn neu'r person ifanc yn berson traws neu amrywiol o ran rhywedd ond nad yw wedi dod 'allan' i weddill y gymuned, mae'n rhaid i'r aelod o staff herio'r rhagfarn ond bydd angen iddo gymryd gofal i beidio labelu'r digwyddiad fel un trawsffobig o flaen disgyblion a myfyrwyr eraill, fyddai dod â’r person sy'n cael ei dargedu ‘allan’. Byddai'r digwyddiad yn dal i gael ei gofnodi fel digwyddiad trawsffobig.

Efallai y bydd adegau pan fydd gan fwlio trawsffobig oblygiadau diogelu ehangach, neu’n cynnwys ymddygiad troseddol; yn yr achosion hyn, mae angen i leoliadau addysgol ymgysylltu â’r asiantaethau diogelu priodol a/neu’r heddlu.

## *4.7 Iaith*

Mae'n bwysig i bob plentyn a pherson ifanc bod staff yn feddylgar am y defnydd o dermau rhywedd.  Er enghraifft, gall defnyddio termau fel 'merched' a ‘bechgyn’ ‘atgyfnerthu rhai syniadau ystrydebol o fenywdod neu wrywdod. Yn yr un modd mae gofyn i ddau fachgen cryf symud darn o ddodrefn yn y dosbarth yn awgrymu na all merched fod yn gorfforol gryf.

[32] https://www.llyw.cymru/profiadau-o-aflonyddu-rhywiol-rhwng-cyfoedion-ymhlith-disgyblion-ysgolion-uwchradd-yng-nghymru-html

Yn ogystal,  mae angen cymryd gofal i osgoi eithrio'r rheiny nad ydynt yn uniaethu fel gwryw neu fenyw (e.e. sy'n anneuaidd), ac i beidio gwneud rhagdybiaethau ynghylch hunaniaeth rhywedd rhywun yn seiliedig ar ei fynegiant rhywedd. Mae Bro Morgannwg yn cefnogi ysgolion i ystyried defnyddio iaith nad yw'n atgyfnerthu agwedd ddeuaidd at rywedd yn enwedig pan nad yw rhywedd person neu bobl y cyfeirir atynt yn hysbys. Bydd yr iaith yma'n gwneud i fachgen traws a elwir yn ferch neu ferch draws a elwir yn fachgen a myfyrwyr anneuaidd deimlo eu bod yn cael eu heithrio. Gall lleoliadau ddatblygu repertoire o iaith niwtral o ran rhywedd, a defnyddio rhagenwau sy'n adlewyrchu eu cymuned, gan gynnwys geiriau fel dysgwyr, Blwyddyn 8, bobl, partner, pob rhywedd, pawb at ati a'u defnyddio pan fo hynny'n briodol.

Diben y defnydd meddylgar hwn o iaith yw peidio â gwadu bod rhyw a rhywedd yn rhannau pwysig o hunaniaeth, mewn gwirionedd mae angen i ni ddefnyddio iaith ddeuaidd i siarad am ragfarn ar sail rhyw, aflonyddu rhywiol a phrofiadau bywyd sy'n benodol i ryw. Yn yr un modd, gallai fod yn briodol defnyddio iaith sy'n benodol i ryw fel 'mam', 'nain' neu 'fe' wrth gyfeirio at rywun penodol y mae ei ryw / rhywedd yn hysbys.

## *4.8 Cwricwlwm*

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a'r Cwricwlwm i Gymru**

Mae ACRh yn un o ofynion statudol fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Mae canllaw Cwricwlwm i Gymru yn nodi statws cyfreithiol ACRh yn y fframwaith ac yn nodi dyletswyddau deddfwriaethol ysgolion a lleoliadau o ran datblygu a chynllunio'r cwricwlwm ar gyfer ACRh. [33]

[33] https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#relationships-and-sexualityeducation

> RSE is a mandatory element of the Curriculum for Wales Framework and a curriculum must accord with the RSE Code. This means schools and settings must include the learning set out in the Code. A curriculum does not encompass RSE unless it accords with the provision in the RSE Code. Learning and teaching also does not encompass the mandatory element of RSE unless it accords with the provision in the RSE Code.
>
> The RSE Code is set out and signposted in the **RSE section** of the Framework guidance.
>
> This Code is issued under section 8 of the Act.

Mae'r Cod ACRh yn nodi'r themâu y mae'n rhaid eu cwmpasu yng nghwricwlwm ACRh ysgol. Mae'n cynnwys tri maes rhyng–gysylltiedig:

- cydberthynas a hunaniaeth
- iechyd rhywiol a lles
- grymuso, diogelwch a pharch

Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn ei wneud yn ofynnol i ACRh ysgol neu leoliad fod yn ddatblygiadol briodol. I gefnogi ymarferwyr yn hyn o beth, mae'r canllaw ACRh yn nodi cyfnodau o fewn pob un o'r meysydd sy'n caniatáu i ymarferwyr benderfynu a yw dysgu'n ddatblygiadol briodol.

Yn ogystal â chael cysylltiadau cryf â dysgu a phrofiadau o fewn y Maes iechyd a lles, mae ACRh hefyd yn thema drawsbynciol, sy'n golygu bod rhaid i ysgolion ac ymarferwyr gael methodoleg ar gyfer dylunio eu cwricwlwm sy'n caniatáu i ddysgwyr ddatblygu, lle bo'n briodol, eu dealltwriaeth o ACRh drwy ddull gweithredu ysgol gyfan a ddylai gynnwys dysgu a phrofiadau ym mhob Maes. Mae'r adran 'dylunio eich cwricwlwm' yng nghanllaw pob Maes yn cynnwys cymorth ar y ffordd y gall pob Maes gyfrannu tuag at ddysgu ACRh yn ddilys.

**Cynwysoldeb, gan gynnwys cynwysoldeb LHDTC+**

Yn unol â gofynion gorfodol y cod ACRh, dylai addysgu a dysgu fod yn gynhwysol, ac yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gweld eu hunain, eu cymunedau a'u teuluoedd yn cael eu hadlewyrchu ar draws y cwricwlwm, a gallant ddechrau gwerthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder. Mae hyn yn cynnwys tegwch o ran rhywedd a chynwysoldeb LHDTC+.

O ran beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion bydd y cwestiynau canlynol yn ddefnyddiol i'w hystyried:

- I ba raddau mae'r cwricwlwm yn ymgorffori trafodaeth ddatblygiadol briodol ar faterion LHDTC+? Mae penderfynu pryd i gyflwyno addysgu a dysgu am yr hyn y mae LHDTC+ a'r termau yn yr acronym yn ei olygu, yn fater i ysgolion a dylai'r penderfyniad hwnnw adlewyrchu pryd maen nhw'n credu ei fod yn ddatblygiadol briodol i'w gyflwyno i'w dysgwyr. Mae'r canllaw statudol yn dweud bod angen i hyn fod yn ymatebol i anghenion dysgwyr, eu profiadau a'u gwybodaeth ddatblygiadol.
- Ydy dysgwyr yn cael esiamplau LHDTC+ positif drwy'r cwricwlwm?
- A yw'r adnoddau yr ydych yn eu defnyddio yn cynnig ystod o enghreifftiau gwahanol, amrywiol a chynhwysol o unigolion, hunaniaeth, teuluoedd, cydberthynas, hil, ethnigrwydd?
- A yw'r adnoddau a ddefnyddir i ddysgu dysgwyr am y mathau gwahanol o deuluoedd yn cynnwys yr ystod o deuluoedd o fewn yr ysgol, y gymuned, cymdeithas ac ati (nid yw hyn am deuluoedd o'r un rhyw yn unig ond teuluoedd a arweinir gan neiniau a theidiau, rhieni sengl, rhieni mabwysiadol, teuluoedd o wahanol grefyddau ac ati hefyd). Mae hyn yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o amrywiaeth, tegwch, goddefgarwch, parch a hawliau wrth sicrhau bod pawb yn cael eu trin yn deg. Mae hefyd yn annog derbyn gwahaniaethau, herio ymddygiad sy'n gwahaniaethu ac yn cefnogi llawer o'r dysgu a'r syniadau allweddol o fewn y maes grymuso, diogelwch a pharch.
- A oes gan ddisgyblion o bob oed fynediad at ystod amrywiol o adnoddau gan gynnwys y rhai sy'n dangos mynegiannau rhywedd ystrydebol ac anystradebol, merched gwrywaidd a bechgyn benywaidd, pobl draws ac amrywiol o ran rhywedd a dynion a menywod mewn ystod eang o yrfaoedd?
- A yw arddangosiadau o amgylch yr ysgol yn herio stereoteipiau rhywedd, yn mynd ati i ddathlu teuluoedd gwahanol a phobl LHDTC+?
- A yw disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n rhoi sylw i faterion LHDTC+ ac sy'n dathlu amrywiaeth? Gallai'r ysgol wneud defnydd o ddigwyddiadau fel Mis Hanes LHDT (Chwefror), Diwrnod Rhyngwladol Amlygrwydd Traws (31 Mawrth), mis Pride LHDTC+ (Mehefin) ac Wythnos Ymwybyddiaeth Traws (Tachwedd) fel cyfleoedd ar gyfer rhagor o waith.
- I ba raddau mae ysgolion yn defnyddio barn dysgwyr, gan gynnwys disgyblion LHDTC+, i ddylanwadu ar ddyluniad y cwricwlwm?

**Sut gallwn ni wneud ACRh yn fwy cynhwysol i ddisgyblion traws?**

- Sicrhau bod iaith sy'n niwtral o ran rhywedd ac yn gynhwysol yn cael ei defnyddio. Er enghraifft, wrth sôn am gydberthynas, defnyddiwch dermau fel 'partner' yn hytrach na, neu yn ogystal â, thermau rhywedd-benodol. Wrth drafod teuluoedd, defnyddiwch 'oedolyn' yn hytrach na, neu yn ogystal â, 'mam neu dad'. Wrth siarad yn benodol am aelodau hysbys o'r teulu neu berthnasoedd hysbys, mae iaith rhywedd-benodol yn briodol.
- Defnyddiwch enwau niwtral o ran rhywedd wrth ddylunio astudiaethau achos, sefyllfaoedd neu gymeriadau.
- Cofiwch gynrychioli pobl draws ac amrywiol o ran rhywedd mewn sefyllfaoedd ac adnoddau a ddefnyddir.
- Dechreuwch unrhyw addysgu ynghylch y glasoed a chyrff drwy dynnu sylw at y ffaith bod cyrff ac organau rhywiol pob person yn wahanol ac y bydd ystod amrywiol o ymatebion i'r glasoed.
- Wrth labelu'r organau rhywiol ystyriwch nodi bod gan y rhan fwyaf, yn hytrach na'r cyfan, o fechgyn bidyn a bod gan y rhan fwyaf, yn hytrach na'r cyfan, o ferched fylfa a fagina.
- Cyflwyno gwybodaeth iechyd rhywiol gydag ymwybyddiaeth y gallai pobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd deimlo nad yw eu corff yn cyd-fynd yn gyfforddus â'u hunaniaeth rhywedd.
- Os ydych yn gwybod bod gennych ddisgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd yn y dosbarth, efallai y bydd angen rhywfaint o gynllunio ymlaen llaw a chymorth un-i-un er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arno mewn ffordd sy'n teimlo'n gefnogol i'w hunaniaeth rhywedd.

**Cefnogi anghenion dysgwyr**

Gall rhai dulliau addysgu a dysgu wneud i blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd deimlo'n ddryslyd, wedi'u heithrio neu'n anghyfforddus. Efallai y bydd rhoi plant a phobl ifanc mewn grwpiau rhyw sengl yn cael yr effaith yma. Efallai y bydd adegau pan fydd angen grwpiau rhyw sengl, gan gynnwys ar gyfer agweddau ar addysg rhyw a pherthnasoedd neu i gefnogi anghenion dysgu grwpiau (e.e. bechgyn a llythrennedd). Cyn belled â nodir angen clir, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu ar gyfer darpariaeth o'r fath.[34] Fodd bynnag, argymhellir bod staff ysgolion ond yn grwpio fesul rhyw pan fydd yn

[34] Deddf Cydraddoldeb; Cyngor i Ysgolion (2018) tud 17 https://www.gov.uk/government/publications/equality-act-2010-advice-for-schools (Adalwyd 13.10.22)

briodol yn addysgol. Siaradwch â'r plentyn neu'r person ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd o flaen llaw a phenderfynu a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol.

**Adnoddau**

Mae nifer o adnoddau ar gael ar-lein sy'n rhoi cyngor i ysgolion am sut i fynd ati i greu cwricwlwm LHDT+ cynhwysol. Fel awdurdod lleol, nid ydym yn cymeradwyo unrhyw adnoddau penodol. Mae llawer o'r adnoddau sydd ar gael yn ymwneud â'r cwricwlwm Addysg Rhyw, Perthnasoedd ac Iechyd (ARhCI) yn Lloegr er bod sawl maes sy'n gorgyffwrdd â'r Cod ACRh.

https://www.stonewallcymru.org.uk/cy/arferion-gorau-pecynnau-cymorth-ac-adnoddau-0
https://www.theschoolrun.com/learning-about-lgbt-issues-primary-schools
https://healthyschoolscp.org.uk/pshe/lgbt/

Mae llawer mwy o adnoddau ar gael ar HWB, ar bob agwedd ar ACRh:
Ystorfa - Hwb (llyw.cymru) gan gynnwys canllaw pedair tudalen sy'n crynhoi'r newidiadau i AcRh a allai fod o gymorth i rieni. Yn ogystal, mae adnoddau hefyd ar gael ar wefan Consortiwm Canolbarth y De (CCD) Ystorfa - CCD (cscjes.org.uk), gan gynnwys astudiaethau achos a gweithgareddau enghreifftiol i gefnogi datblygiad y fframwaith ACRh o fewn ysgolion.

**Cofiwch**

- Mae gan nifer o ysgolion arferion da sy'n hyrwyddo cydraddoldeb ac sy'n cefnogi anghenion plant a phobl ifanc unigol.
- Dylid cyfeirio at gynhwysiant traws ar draws y fframwaith polisi.
- Dylai ysgolion herio, cofnodi a monitro pob digwyddiad o fwlio a rhagfarn yn ôl math.
- Gellir defnyddio'r cwricwlwm ac yn enwedig ACRh i ddatblygu dealltwriaeth o amrywiaeth teuluoedd, cyfeiriadedd rhywiol, stereoteipio rhywedd a hunaniaeth rhywedd ac i atal rhagfarn ar sail rhyw, homoffobia, deuffobia a thrawsffobia.

# 5 Cefnogi'r plentyn neu'r person ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd unigol

## *5.1 Dull gweithredu unigol o gefnogi*

Nid oes un dull i bawb o ran cefnogi plentyn neu berson ifanc traws neu amrywiol o ran rhywedd. Mae dyrannu aelod allweddol o staff, fel a wneir ar gyfer unrhyw ddisgybl neu fyfyriwr agored i niwed arall, yn gam cyntaf pwysig.

Mae'n hanfodol bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu trin gyda'r caredigrwydd, y tosturi a'r gefnogaeth sy'n ofynnol i'w cadw nhw a'u cyfoedion yn ddiogel ac yn iach. Efallai y bydd heriau ychwanegol i ddisgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd o gefndiroedd ffydd neu ddiwylliannol penodol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd. Mae'n bwysig i leoliadau addysg ystyried, cyn belled ag y bo modd, pob agwedd ar hunaniaeth a phrofiad plentyn wrth ystyried sut i gefnogi ac ymateb i'r plentyn yn y ffordd orau. Bydd pob taith yn unigryw.

## Plant a phobl ifanc anneuaidd

Mae rhai adrannau o'r canllaw hwn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc deuaidd, fodd bynnag, mae egwyddorion y pecyn cymorth hwn a'r adrannau sy'n gysylltiedig â newid rhagenw, gwisg, cwricwlwm a stereoteipio o ran rhywedd yn berthnasol i gynnwys plant a phobl ifanc anneuaidd.

## Cwestiynu rhywedd

Mae'n bwysig cydnabod y bydd rhai plant a phobl ifanc yn mynd drwy gyfnod o gwestiynu eu hunaniaeth rhywedd. Dros amser efallai y bydd rhai o'r grŵp hwn yn sylweddoli eu bod yn gyfforddus â'u rhyw cofrestredig, i eraill gall hyn fod yn rhan o daith hirach. Gall y cwestiynu hwn ddod mewn sawl ffurf ac ymddangos ar wahanol oedrannau. Gall gynnwys defnyddio enw a neu ragenw gwahanol. Gall gynnwys cwestiynu mynegiant rhywedd, er enghraifft gall plentyn newid yr hyn y mae'n ei wisgo neu gall newid sut mae'n cyflwyno, tra i eraill gall ymwneud â'u cyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yn galw ar weithwyr iechyd proffesiynol i:

> Helpu rhieni, ysgolion ac asiantaethau eraill i fabwysiadu agwedd gefnogol, hyblyg ac ymatebol i gadarnhau rhywioldeb a rhywedd a fynegir gan blentyn, tra'n bod yn sensitif i newid dros amser. Bydd hyn yn golygu gwneud addasiadau priodol.[35]

## Dod Allan

Mae'n bwysig cydnabod bod dod allan yn gam hynod arwyddocaol yn nhaith unrhyw berson LHDTC+ a gall yr ymateb cychwynnol gael effaith barhaol ar yr unigolyn. Mae'r dewis i ddod allan yn un personol a bydd yn digwydd pan fydd yr amser yn teimlo'n iawn i'r plentyn neu'r person ifanc. Efallai y bydd yn dod allan i rai pobl ac nid i eraill, efallai

---

[35] RCPH yn cefnogi plant a phobl ifanc LHDTC+ https://www.rcpch.ac.uk/resources/supporting-lgbtq-children-young-people#key-messages-for-health-professionals

y bydd yn ei rannu'n agored iawn yn yr ysgol neu gymuned ehangach neu ond eisiau i un person fod yn ymwybodol o’r peth.

Os yw plentyn neu berson ifanc yn gwneud y penderfyniad i ddod allan i chi, mae'n gam mawr ac yn awgrymu eich bod yn berson y gall ymddiried ynddo.  Cofiwch gydnabod yr hyn mae'n ei ddweud, byddwch yn empathig gan ddiolch iddo am siarad â chi. Os nad ydych chi'n siŵr am y termau y mae'r person ifanc yn eu defnyddio mae'n iawn i chi ofyn. Y cam cyntaf efallai yw gofyn rhai cwestiynau fel 'Wyt ti’n gallu dweud mwy wrthyf am y ffordd yr wyt yn teimlo...?' ‘Am ba mor hir wyt ti wedi bod yn meddwl hyn…?’ 'Wyt ti wedi siarad ag unrhyw un arall / aelodau'r teulu...?'

- Dylid mabwysiadu "polisi gwylio ac aros, nad yw'n rhoi unrhyw bwysau ar blant i fyw neu ymddwyn yn unol â'u [rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth] neu i symud yn gyflym i drawsnewid rhywedd"[36]. (sefyllfa 2018 Coleg Brenhinol y Seiciatryddion)

Mae'n bwysig cofio er mwyn i newidiadau fel enwau a rhagenwau gael eu cydnabod yn y gymuned ehangach, bydd angen lefel o rannu gwybodaeth ymysg staff a disgyblion. Dylai hyn, gymaint â phosibl, gael ei arwain gan y plentyn neu'r person ifanc a’r teulu yn gofyn am y newidiadau hyn.

- Er y gallai plentyn neu berson ifanc a'i deulu fod yn awyddus i ddod allan a thrawsnewid cyn gynted â phosibl, efallai y bydd angen i staff ysgol weithio gyda nhw i sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a rheoli'r broses hon yn feddylgar. Bydd hyn yn helpu i sicrhau diogelwch y plentyn neu'r person ifanc sy'n dod allan ac i gefnogi ei gyfoedion i ddeall unrhyw newidiadau.
- Ystyriodd Adolygiad Cass nad gweithred niwtral yw 'Trawsnewidiad Cymdeithasol' ac y "gall gael effeithiau sylweddol ar y plentyn neu'r person ifanc o ran ei weithrediad seicolegol.   Dyma pam mae dull "gwylio ac aros" yn hanfodol,
  mae safbwyntiau gwahanol ar y manteision yn erbyn niwed trawsnewid cymdeithasol cynnar, pa bynnag sefyllfa a gymerir mae'n bwysig cydnabod nad yw'n weithred niwtral, ac mae angen cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn rhuthro i mewn i'r broses heb ddealltwriaeth drylwyr o'i goblygiadau.

Mewn rhai lleoliadau addysg, gallai'r plentyn neu'r person ifanc fod wedi trawsnewid mewn lleoliad ysgol blaenorol. Dylai staff yr ysgol fod yn ymwybodol y gallai'r plentyn neu'r person ifanc hwn fod wedi dod allan i nifer fach o staff ysgol neu ei gyfoedion ac, o'r herwydd, rhaid cadw ei wybodaeth yn breifat a chyfrinachol (oni bai bod angen torri cyfrinachedd am resymau diogelu).

---

[36] Adalwyd o PS02_18.pdf (rcpsych.ac.uk)

## 5.2 Gweithio gyda rhieni, gofalwyr a brodyr a chwiorydd disgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd

Fel egwyddor allweddol, bydd lleoliadau addysg eisiau gweithio mewn partneriaeth agos â rhieni a gofalwyr. Yn aml, rhieni a gofalwyr fydd y rhai i fynd at y lleoliad am anghenion eu plentyn traws ac amrywiol o ran rhywedd.

Bydd llawer o rieni a gofalwyr plentyn neu berson ifanc sy'n dod allan fel person traws ac amrywiol o ran rhywedd yn gefnogol o'u plentyn er y gallant hefyd deimlo rhywfaint o sioc, pryder a galar am y plentyn maen nhw'n teimlo y gallen nhw ei golli a'r dyfodol roedden nhw wedi ei ddychmygu iddyn nhw. Efallai y byddant hefyd yn ofni ymatebion cymunedol a bydd angen cynnig amser ychwanegol, cefnogaeth a gofal i'r rhieni hyn.

Bydd anawsterau yn codi i ysgolion lle nad yw plentyn sydd eisiau trawsnewid yn gymdeithasol yn yr ysgol yn dymuno i'r ysgol ymgynghori â'r rhieni neu roi gwybod iddynt. Fel y nodwyd yn yr Adroddiad dros dro Cass, nid yw trawsnewid cymdeithasol yn weithred niwtral oherwydd gallai fod â goblygiadau seicolegol sylweddol i blentyn. Oherwydd hyn, ni ddylai ysgolion gefnogi plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i drosglwyddo'n gymdeithasol heb gynnwys rhieni'r dysgwr yn y broses.

Os oes rheswm cryf dros bryderu y gallai hysbysu rhiant gael effaith niweidiol ar les disgybl, dylai ysgolion ofyn am gyngor gan y Swyddog Diogelu Addysg a fydd yn cefnogi'r ysgol wrth wneud penderfyniadau ac yn gofyn am gyngor pellach os oes angen.

## 5.3 Trawsnewid

Gellir rhannu trawsnewid yn drawsnewid 'cymdeithasol' a 'meddygol'. Ni fydd ysgolion yn gwneud penderfyniadau am drawsnewid meddygol, ond rhaid i ysgolion fod yn ymwybodol bod trawsnewid cymdeithasol yn gwneud trawsnewid meddygol dilynol yn fwy tebygol, ac felly ni ddylid ystyried trawsnewid cymdeithasol yn 'niwtral'.

### Trawsnewid cymdeithasol

Fel y nodwyd uchod, ni ddylai ysgolion gefnogi plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i drawsnewid yn gymdeithasol heb gynnwys rhieni'r dysgwr yn y broses. Gall hefyd fod yn bosibl y bydd rhieni a gofalwyr yn ceisio atal eu plentyn rhag gwneud unrhyw gamau tuag at drawsnewid a bydd angen cynnig amser ychwanegol, cefnogaeth a gofal i'r teulu hwn.

Yn achos disgyblion oed uwchradd, os oes pryderon bod gwrthod cytundeb rhieni yn cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl a lles y person ifanc, dylai'r ysgol ofyn am gyngor proffesiynol gan y Swyddog Diogelu Addysg a fydd yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ac yn ceisio arweiniad pellach os oes angen.

O dan yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen penderfynu a oes gan y plentyn gymhwysedd *Gillick* i wneud penderfyniad o'r fath.

### Cymhwysedd Gillick

Mae hwn yn derm a ddefnyddir i ddynodi cymhwysedd plentyn i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. At lawer o ddibenion ymarferol, ymddiriedir yn y rhieni i wneud penderfyniadau pwysig er budd eu plant. Pan fydd barn rhieni a phlant yn wahanol, neu pan nad yw plant eisiau i'w rhieni gymryd rhan, bydd angen penderfynu a yw'r plentyn yn gymwys i wneud y penderfyniad ei hun (cyfeirir at hyn fel cymhwysedd *Gillick*).

Mae cymhwysedd *Gillick* yn cael ei farnu mewn perthynas â'r penderfyniad penodol dan sylw ac nid yn gyffredinol. Nid oes unrhyw set bendant o gwestiynau y mae angen eu gofyn ond bydd angen i weithwyr proffesiynol priodol ystyried:

- oedran, aeddfedrwydd a galluedd meddyliol y plentyn;
- ei ddealltwriaeth o'r mater ac o fanteision, anfanteision a goblygiadau hirdymor posibl y penderfyniad;
- ei ddealltwriaeth o'r risgiau posibl;
- gallu'r plentyn i ddeall unrhyw gyngor neu wybodaeth a roddwyd iddo;
- dealltwriaeth y plentyn o unrhyw ddewisiadau amgen, os ydynt ar gael;
- gallu'r plentyn i roi rhesymeg dros ei benderfyniad.

Wrth benderfynu ar gymhwysedd *Gillick* yng nghyd-destun trawsnewid cymdeithasol, bydd angen ystyried y cwestiwn penodol a yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i wneud y penderfyniad(au) perthnasol heb gefnogaeth ei riant/rhieni.

Pan nad oes gan blant gymhwysedd *Gillick,* gall rhieni neu weithwyr proffesiynol priodol wneud penderfyniadau er eu budd.

Gallai trawsnewid cymdeithasol gynnwys:

- Newid enw
- Newid rhagenw (ef, hi, nhw, zie ac ati)
- Gwisgo dillad sy’n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd unigolyn*

*Wrth gwrs, nid yw pob plentyn a pherson ifanc sy'n gwisgo dillad sy'n gysylltiedig â rhywedd sy'n wahanol i’r rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth yn berson traws ac amrywiol o ran rhywedd. Dylai lleoliadau addysg ddarparu ar gyfer sbectrwm eang o fynegiannau rhywedd a bod yn agored i'r amrywiaeth a ddangosir gan blant a phobl ifanc. Mae'n hanfodol bod gwaith ar ragfarn ar sail rhyw, mynegiant rhywedd, stereoteipio rhywedd ac, yn enwedig,

gwrywdod a benyweidd-dra yn cael ei wneud ar draws yr ysgol i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu parchu o ran eu mynegiant rhywedd. Yn yr un modd, gall person traws ac amrywiol o ran rhywedd ddewis peidio â gwisgo dillad a ystyrir fel dillad sy'n cyd-fynd â'i hunaniaeth rhywedd.

Gall nodau plentyn neu berson ifanc o ran trawsnewid newid dros amser ac mae angen i'r gefnogaeth a gynigir adlewyrchu hyn. Er enghraifft, gall plentyn neu berson ifanc ddechrau ar lwybr trawsnewid, sylweddoli nad dyma'r llwybr cywir iddo a gwrthdroi rhai neu bob agwedd ar ei drawsnewid cymdeithasol.

Cofiwch efallai na fydd rhai disgyblion a myfyrwyr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn teimlo'r un pwysau neu ymwybyddiaeth o 'ffitio i mewn' yn gymdeithasol, neu efallai fydd ganddyn nhw wahaniaethau empathi sy'n ei gwneud hi'n anodd iddyn nhw ddeall safbwyntiau neu deimladau eu teuluoedd neu ffrindiau. Ar ôl iddyn nhw 'ddod allan' i un person efallai fydd ganddynt syniadau neu amserlen afrealistig am y ffordd y bydd eu taith yn datblygu, ac ni fydd hyn yn gadael llawer o amser i greu cynllun cefnogol. Bydd angen i ysgolion ddatblygu cynlluniau sy'n bodloni anghenion unigolyn ond sy'n darparu cefnogaeth effeithiol iddo ef a'r gymuned ehangach.

Bydd rhai disgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd angen cefnogaeth wrth ddatblygu sgriptiau ac ymatebion i gwestiynau y gall pobl ofyn iddynt am eu proses drawsnewid. Gall hyn gynnwys ymadroddion fel 'Dim o dy fusnes...' 'Dwi wastad wedi bod yn fachgen / merch'. 'Mae anneuaidd yn golygu...' Gall y gefnogaeth hon, lle mae'n adlewyrchu cred y disgybl unigol, gael ei darparu gan oedolyn dibynadwy yn yr ysgol, gan weithio ar y cyd â theulu'r plentyn neu berson ifanc a gweithiwr proffesiynol priodol arall.

Yn ôl Estyn, "Mae'r ysgolion a'r colegau mwyaf effeithiol yn ymateb yn hyblyg i anghenion y dysgwyr ac yn deall bod y daith drawsnewid yn unigryw i bob person ifanc unigol. Yn yr achosion hyn, maent yn gweithio'n dda gyda disgyblion, dysgwyr a'u rhieni i gynllunio'r broses drawsnewid. Maen nhw'n rhannu hyn ag aelodau eraill o gymuned yr ysgol neu'r coleg mewn modd sensitif. Mae hyn yn lleddfu'r daith drawsnewid ac yn lleihau achosion o fwlio trawsffobig."

## Trawsnewid meddygol

Nid rôl lleoliadau addysgol yw gwneud penderfyniadau am driniaeth feddygol. Efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc yn cael triniaeth feddygol sy'n gysylltiedig â thrawsnewid tra'u bod yn yr ysgol, ond bydd llawer ddim yn gwneud hyn.

Gall dod i delerau â bod yn berson traws ac amrywiol o ran rhywedd fod yn gyfnod anodd ar unrhyw oedran. Gall dechrau camau cychwynnol trawsnewid meddygol fod yn arbennig

o heriol i berson ifanc a'i deulu. Gall hyn gael ei waethygu gan amseroedd aros hir i gael cymorth meddygol a'r broses asesu hir sy'n gysylltiedig. Mae'n adeg, felly, pan fydd angen cefnogaeth mwy na thebyg.

Dylai disgyblion neu fyfyrwyr sydd angen amser i ffwrdd ar gyfer apwyntiad meddygol gael eu cofnodi gyda'r cod M.

### *5.4 Amseru trawsnewid (gan gynnwys pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd)*

Bydd gan ysgolion ddisgyblion a myfyrwyr ar wahanol gamau trawsnewid gan gynnwys y rhai sydd wedi trawsnewid cyn mynychu eu hysgol. Bydd amgylchiadau yn amrywio a bydd lefel y gefnogaeth a'r math o gefnogaeth sydd ei hangen yn amrywio yn ôl yr unigolyn a'u cam trawsnewid.

Gall rhai plant traws ac amrywiol o ran rhywedd drawsnewid yn gymdeithasol yn yr ysgol gynradd. Cyn iddyn nhw symud ymlaen i'r ysgol uwchradd, argymhellir y canlynol:

- Cael cyfarfod gyda'r plentyn (a'i rieni neu ofalwyr) i ddarganfod a oes ganddo unrhyw bryderon a thrafod sut yr hoffai i unrhyw faterion sy'n codi gael eu rheoli
- Dyrannu cyswllt penodol neu 'oedolyn dibynadwy' i'r plentyn fynd ato os yw materion yn codi yn ystod y diwrnod ysgol. Bydd hyn yn cyfyngu nifer yr oedolion y bydd yn rhaid iddo ddod allan iddyn nhw neu egluro ei stori iddyn nhw os oes unrhyw heriau.

Efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc, gyda chefnogaeth gan eu teuluoedd, yn dewis trawsnewid i'r hunaniaeth rhywedd a ffefrir ganddynt ar adeg pan fyddant yn newid ysgol. Felly, bydd angen i ysgolion uwchradd fod yn arbennig o ymwybodol a chefnogol o blant sy'n pontio o ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Pan fydd y plentyn/person ifanc yn cytuno ac nad oes tystiolaeth i awgrymu bod achos i bryderu mewn perthynas â'r disgybl / person ifanc penodol hwnnw, bydd yr ysgol yn gweithio gyda myfyrwyr o'r ysgol gynradd wreiddiol a fyddai'n ymwybodol o'r newid hwn.

Dylai pob lleoliad allu cefnogi plentyn neu berson ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd yn effeithiol, gan gynnwys y rhai sy'n trawsnewid.

## *5.5 Disgyblion a myfyrwyr â nodweddion ychwanegol sy'n eu gwneud yn agored i niwed*

### Croestoriadedd

Dylai pob lleoliad addysgol gydnabod pa mor unigryw yw eu plant a'u pobl ifanc, mynd i'r afael â'u hanghenion mewn ffordd gyfannol a herio pob math o ragfarn.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol ac Anabledd

Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i ddeall neu dderbyn eu hunaniaeth eu hunain, dysgu am y rhai sy'n wahanol iddyn nhw, a deall bod gwahaniaeth i'w barchu a'i ddathlu.

Gall staff, rhieni, gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol ehangach fod angen cefnogaeth i ddeall bod plentyn neu berson ifanc sydd ag ADY neu Anabledd yr un mor debygol o fod yn berson lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws ac amrywiol o ran rhywedd ag unrhyw berson arall. Mae ymchwil yn dangos bod nifer uwch o bobl awtistig yn bobl draws neu amrywiol o ran rhywedd. Mae'n debygol bod amryw o resymau am hyn. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn cynnwys erthyglau ar ei gwefan am hyn.

Mae'n bwysig nad yw geiriau neu weithredoedd plentyn neu berson ifanc yn cael eu priodoli'n awtomatig i'w ADY neu Anabledd, er enghraifft, dewisiadau ar gyfer mathau o ddillad neu hyd gwallt yn cael eu gweld fel angen synhwyraidd, neu ymddygiad yn cael ei ddisgrifio fel diddordeb arbennig newydd, cyfaredd, chwilfrydedd neu gyfnod. Er y gallai hyn fod yn wir mewn rhai achosion, mae'n bwysig gwrando heb farnu fel nad yw mynegiant o gwestiynu hunaniaeth rhywedd yn cael ei anwybyddu.

Mae emosiynau sy'n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd yn gymhleth i unrhyw un eu deall a'u mynegi, a gallai hyn gael ei waethygu ymysg y rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu a rhyngweithio.

Efallai na fydd rhai plant a phobl ifanc sydd ag ADY neu Anabledd yn gweld yr angen i gyfathrebu ac efallai na fyddant yn deall nad yw eraill eisoes yn eu gweld yn yr un ffordd ag y maent yn gweld eu hunain neu'n gwybod pwy ydyn nhw. Yn amlwg, gallai hyn arwain at fwy o rwystredigaeth a phryder ac effeithio'n negyddol ar les ac iechyd meddwl. Bydd darparu cefnogaeth un i un i'r plentyn neu berson ifanc i archwilio materion mewn ffordd anfeirniadol, ddiogel gyda sgyrsiau sy'n mynd ar gyflymder y plentyn yn bwysig.

Gall gwahaniaethau o ran dealltwriaeth gymdeithasol, empathi a chyfathrebu olygu bod angen cefnogaeth benodol. Gall offer megis Mind Mapping, Comic Strip Conversations a Social Stories fod yn ddefnyddiol i gefnogi cyfathrebu a dealltwriaeth.

Yn ogystal, gall person ifanc ag ADY fod yn fwy agored i niwed. Bydd angen i staff roi mwy o gefnogaeth yn ôl yr angen ac addysgu plant am ddiogelwch gan gynnwys ar-lein.

## Plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol (BAME) a phant a phobl ifanc o gefndir ffydd

Mae pobl draws ac amrywiol o ran rhywedd BAME yn debygol o wynebu gwahaniaethu ar sail eu hil a'u rhyw, a gall hyn wneud ceisio cefnogaeth yn anoddach. Drwy ddod allan fel person traws ac amrywiol o ran rhywedd, gallai rhai plant a phobl ifanc o gefndir ffydd fod mewn perygl o golli eu cymunedau.

Mae gan bob ffydd mawr grwpiau LHDT cynhwysol, a gall y rhain fod yn adnodd defnyddiol i weithwyr proffesiynol a rhai plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Wrth sgwrsio â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gall lleoliadau addysg hefyd annog, os yw'n briodol, ceisio cefnogaeth gan arweinwyr neu grwpiau ffydd, diwylliannol a chymunedol.

## **PDG** - Plant sy’n Derbyn Gofal

Mae plant a phobl ifanc sy'n byw mewn lleoliad gofal neu sydd wedi cael profiad o ofal yn debygol o fod yn fwy agored i niwed oherwydd eu profiad. Gallai hyn gynnwys trawma blaenorol, anawsterau ymlyniad a heriau gyda rheoli emosiynau. I blant sy'n byw mewn gofal, bydd yn hanfodol bod y cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol, yr ysgol, gofalwyr a’r plentyn yn glir ac yn dryloyw.

Gall plant mewn gofal sy'n dymuno newid eu henw yn gyfreithiol gael heriau ychwanegol oherwydd y gwahanol lefelau o gyfrifoldeb cyfreithiol sydd gan yr oedolion o'u cwmpas o ran penderfyniadau cyfreithiol. Gall hyn olygu efallai na fydd plentyn yn gallu newid ei enw trwy weithred newid enw tan ei fod yn 16 oed; dylid egluro’r sefyllfa i weithiwr cymdeithasol y plentyn. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o'r mater hwn a sicrhau eu bod yn gallu cefnogi'r plentyn i ddefnyddio enw a ffefrir yn eu lleoliad lle bo hynny'n bosibl.

Yn aml, gall plant a phobl ifanc mewn gofal fod wedi cael profiadau o esgeulustod a theimlo fel nad oes unrhyw un gwrando arnynt. Mae rhwystredigaethau pellach gydag oedi o ran newid enw yn debygol o gynyddu'r teimladau hyn.

Os yw plentyn sy'n derbyn gofal eisiau cael ei adnabod wrth enw gwahanol, mae'n bwysig rhannu hyn gyda'i weithiwr cymdeithasol. Gall y gweithiwr cymdeithasol gymryd cyngor cyfreithiol ar gamau i gyflawni hyn, os ystyrir ei fod er lles y plentyn.

Efallai y bydd yn rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc mewn gofal ddod allan sawl gwaith i wahanol weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'i ofal. Yn yr un modd, efallai mai dim ond un

person y bydd yn dod allan iddo ond bydd yn canfod bod nifer o bobl yn ymwybodol. Dylid rhoi gwybod i'r plentyn neu'r person ifanc pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu a gyda phwy.

### *5.6 Cyfeirio i gefnogaeth ychwanegol*

- Ieuenctid Cymru (youthcymru.org.uk / mailbox@youthcymru.org.uk / 01443 827840). Mae'n rhedeg TransForm Cymru a Belong (Julia@youthcymru.org.uk).
- Clwb ieuenctid ar gyfer pobl ifanc LHDTC+ a chynghreiriaid yw FI YW FI, sydd â’r nod o greu mannau diogel i fynegi eu hunain ac archwilio eu hunaniaeth. Mae'n cynnig hyfforddiant LHDTC+ ar bynciau fel perthnasoedd iach, diogelwch ar y we a magu hyder. Cysylltwch â Georgia Young, Swyddog Ymgysylltu Ieuenctid am wybodaeth (gyoung@bromorgannwg.gov.uk)
- Mae Umbrella Cymru yn darparu gwybodaeth ar grwpiau, clybiau a fforymau cymdeithasol a chymorth ar ei wefan.
- Mae CYPF (Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd) yn darparu dolenni i Adnoddau LHDTC+ penodol.
- Mae Glitter Cymru yn sefydliad cymunedol yng Nghaerdydd o bobl LHDTC+ ethnig leiafrifol. Mae'n rhestru adnoddau ar ei wefan:

**Cofiwch**

- Dilynwch arweiniad y plentyn, y person ifanc a'i deulu, gan gadw cyfrinachedd lle bo hynny'n briodol a chymryd camau priodol, amserol sy'n amddiffyn lles y rhai dan sylw.
- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw bryderon diogelu a defnyddio'r gweithdrefnau diogelu priodol.
- Ystyriwch bob agwedd ar hunaniaeth plentyn a pherson ifanc wrth deilwra cefnogaeth.
- Mae trawsnewid yn daith unigryw.
- Gwnewch ddefnydd o wasanaethau cymorth arbenigol lleol a chenedlaethol.

# 6 Canllawiau ESTYN a rheoli materion penodol ar gyfer plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd

### *6.1 Canllawiau Estyn*

Mae'r materion penodol a drafodir yn yr adran hon yn gymhleth. Mae Estyn wedi cynhyrchu "Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant: Arfer da wrth gefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LHDT) mewn ysgolion a cholegau", Hydref 2020.

Mae'r canllaw arfer da yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu arweinwyr ysgolion ac yn datgan:

*“Mae arweinwyr effeithiol yn cydnabod nad oes atebion safonol na syml i'r heriau hyn, ac mae angen deialog gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r mater. Mewn ysgolion a cholegau sy'n sensitif i anghenion dysgwyr trawsryweddol, mae staff yn cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu ac addasu'r ddarpariaeth lle bo angen. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff yn tawelu meddyliau rhieni disgyblion trawsryweddol y byddan nhw'n gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn eu plant ac na fyddan nhw'n goddef bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig.*

Mae'r canllaw yn rhoi sylwadau penodol ar sut y gall ysgolion ystyried anghenion dysgwyr traws, fel a ganlyn:

> *Mewn ysgolion a cholegau sy'n sensitif i anghenion dysgwyr trawsryweddol, mae staff yn cysylltu'n dda â rhieni a gofalwyr i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu ac addasu'r ddarpariaeth lle bo angen. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae staff yn tawelu meddyliau rhieni disgyblion trawsryweddol y byddan nhw'n gweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn eu plant ac na fyddan nhw'n goddef bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Fodd bynnag, dim ond cyfran fechan o ysgolion sy'n wirioneddol effeithiol wrth fynd i'r afael â'r mater hwn ac, mewn gormod o achosion, mae achosion o fwlio disgyblion trawsryweddol yn effeithio'n negyddol ar eu profiad yn yr ysgol.*
>
> Yn y mwyafrif o ysgolion uwchradd a cholegau, mae arweinwyr yn ystyried sut mae nodweddion a chyfleusterau rhyw neu rywedd benodol, fel toiledau, ystafelloedd newid a gofynion gwisg ysgol, yn effeithio ar fywydau dysgwyr trawsryweddol. Yn yr achosion gorau, nid yw arweinwyr yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch eu hanghenion, ond yn gweithio gyda nhw mewn modd sensitif i addasu'r ddarpariaeth a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau mwyaf priodol o ystyried eu hanghenion a natur adeilad yr ysgol neu'r coleg.
>
> Yn aml, mae ysgolion a cholegau'n gyfyngedig o ran y newidiadau ffisegol y gallant eu gwneud i gyfleusterau oherwydd cyfyngiadau'r adeilad a'r cyllidebau sydd ar gael. Yn yr achosion gorau, lle maen nhw'n gwneud newidiadau i'w cyfleusterau neu'n cynllunio adeilad newydd, maen nhw'n ymgynghori â phob dysgwr gan gynnwys unrhyw grwpiau LHDT i ystyried eu barn. Ond yn rhy aml wrth ystyried codi adeiladau newydd, nid yw ysgolion a cholegau newydd yn ystyried y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr trawsryweddol yn ddigon da.
>
> Mae'r canllaw hefyd yn cynnwys ‘Cwestiynau hunan-werthuso defnyddiol i gefnogi cynnwys pobl LHDT' yn Atodiad 1.

Dylai lleoliadau addysg ystyried y canllaw isod a’i ddefnyddio fesul achos unigol.  Wrth wneud y penderfyniadau cymhleth hyn, bydd ysgolion yn cael eu cefnogi'n llawn gan swyddogion awdurdodau lleol fel y bo'n briodol.

## *6.2 Mynediad a diogelwch i bawb*

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn hyrwyddo mynediad at gyfleusterau, y cwricwlwm a chyfleoedd allgyrsiol i bob plentyn a pherson ifanc.

Bydd lleoliadau addysg yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd ar wahanol gamau o’r broses o gwestiynu eu hunaniaethau neu’n trawsnewid.  Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, y rhai sydd newydd ddod allan fel pobl draws ac amrywiol o ran rhywedd, y rhai sydd wedi dod allan fel rhai anneuaidd, y rhai sydd wedi trawsnewid yn gymdeithasol naill ai'n rhannol neu'n llawn a'r rhai sy'n cwestiynu eu hunaniaeth rhywedd heb unrhyw lwybr sefydlog. Fel y dywedwn uchod, bydd gan y rhan fwyaf ond nid pob plentyn a pherson ifanc [traws] [amrywiol o ran rhywedd] y nodwedd warchodedig o "ailbennu rhywedd" ond nid yw hyn yn rhoi hawl i gael eu trin fel pe baent o'r rhyw arall. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar ysgol i ganiatáu i ddisgyblion traws ac amrywiol o ran rhywedd ddefnyddio cyfleusterau rhyw sengl fel toiledau, ystafelloedd newid neu ystafelloedd gwely sengl rhyw ar deithiau'r ysgol.

Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ysgolion ddangos eu bod yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion y disgyblion traws neu amrywiol o ran rhywedd ochr yn ochr ag anghenion pob disgybl arall ac yn gwneud "addasiadau rhesymol" er mwyn peidio â thrin disgyblion traws neu amrywiol o ran rhywedd yn llai ffafriol nag unrhyw berson arall sydd â nodwedd warchodedig.

Wrth wneud penderfyniadau, bydd angen i ysgolion fod yn ymwybodol o'r effaith ar ddisgyblion eraill o gael disgybl o ryw wahanol yn bresennol mewn cyfleusterau un rhyw. Argymhellir y dylai ysgolion gynnal asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb wrth wneud newidiadau i'r ddarpariaeth gyda'r diben o leihau neu atal unrhyw effeithiau negyddol posibl o newidiadau. Gweler Atodiad 8 am fformat enghreifftiol.  I gael mwy o gyngor am achosion unigol, rhoi sylw dyledus ac ymgymryd ag Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, cysylltwch â'r Tîm Cydraddoldeb neu Dîm Diogelu’r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau - safeguardingeducation@bromorgannwg.gov.uk.

Dylai lleoliadau addysg gadw cofnod o'u penderfyniadau, gan gynnwys ystyried goblygiadau cydraddoldeb, a dylent adolygu goblygiadau polisïau a phenderfyniadau mawr yn gyson.

## 6.3 Toiledau ac Ystafelloedd Newid

Mae Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgol) 1999 sy'n berthnasol i bob ysgol a gynhelir gan Awdurdodau Lleol Cymru, yn nodi (Rheoliad 3) bod rhaid darparu cyfleusterau tai bach ar wahân ar gyfer bechgyn a merched 8 oed neu hŷn, ac eithrio lle mae'r toiled mewn ystafell y gellir ei chloi sy'n cynnwys un toiled a basn ymolchi, gyda neu heb gawod neu sinc ddofn, sy'n agor yn uniongyrchol i ofod cylchrediad ar wahân i risiau.[37]

Yn ôl adborth anecdotaidd gan blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd, bydd llawer yn dewis toiled niwtral o ran y rhywiau rhag ofn cael eu bwlio neu eu haflonyddu yn hytrach na chyfleuster mawr un rhyw aml-feddiannaeth.

Canfu Estyn, yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd a cholegau, fod arweinwyr yn ystyried sut mae nodweddion a chyfleusterau rhyw neu rywedd benodol, fel toiledau, ystafelloedd newid a gofynion gwisg ysgol, yn effeithio ar fywydau dysgwyr trawsryweddol. Yn yr achosion gorau, nid yw arweinwyr yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch eu hanghenion, ond yn gweithio gyda nhw mewn modd sensitif i addasu'r ddarpariaeth a sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau mwyaf priodol o ystyried eu hanghenion a natur adeilad yr ysgol neu'r coleg.

Yn aml, mae ysgolion a cholegau'n gyfyngedig o ran y newidiadau ffisegol y gallant eu gwneud i gyfleusterau oherwydd cyfyngiadau'r adeilad a'r cyllidebau sydd ar gael. Yn yr achosion gorau, lle maen nhw'n gwneud newidiadau i'w cyfleusterau neu'n cynllunio adeilad newydd, maen nhw'n ymgynghori â phob dysgwr gan gynnwys unrhyw grwpiau LHDT i ystyried eu barn.

Dylai unrhyw ddisgybl neu fyfyriwr sydd angen neu awydd mwy o breifatrwydd, waeth beth fo'r rheswm sylfaenol, gael dewis amgen rhesymol, fel defnydd o ardal breifat neu gael newid ar adeg wahanol. Dylai unrhyw drefniant amgen gael ei ddarparu mewn ffordd sy'n amddiffyn gallu'r plentyn neu berson ifanc i gadw ei statws traws yn gyfrinachol.

Yn ddelfrydol, lle mae cyllid a gofod yn caniatáu; dylai lleoliadau addysgol gynnig cymysgedd o doiledau i ddisgyblion a myfyrwyr, gan gynnwys:

- toiledau un rhyw
- blociau o doiledau ciwbicl o'r llawr i'r nenfwd sy'n agor yn uniongyrchol i ofod cylchrediad ar wahân i risiau y gellir eu defnyddio gan bawb, gyda biniau ar gyfer cynnyrch mislif ym mhob ciwbicl ('toiledau i bawb')
- toiledau hygyrch.

[37] https://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/2/regulation/3/made (Adalwyd 18.10.22)

Mae Rheoliadau Addysg (Safleoedd Ysgol) 1999 hefyd yn nodi (Rheoliad 3(7)) bod rhaid i ysgolion ddarparu "adeilad newid gan gynnwys cawodydd ... i ddisgyblion sydd wedi cyrraedd 11 oed ac sy'n derbyn addysg gorfforol".

Nid yw dogfen y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Beth mae Cyfraith Cydraddoldeb yn ei Olygu i Chi fel Darparwr Addysg yng Nghymru* yn cyfeirio at ddisgyblion traws ac amrywiol o ran rhywedd. Fodd bynnag, mae Canllawiau Technegol yr EHRC ar gyfer ysgolion yn Lloegr, yn nodi'r canlynol:

> *Mae ysgol yn methu â darparu cyfleusterau newid priodol ar gyfer disgybl trawsryweddol ac yn mynnu bod y disgybl yn defnyddio ystafell newid y bechgyn er ei bod hi bellach yn byw fel merch. Gallai hyn fod yn wahaniaethu ailbennu rhywedd anuniongyrchol oni bai y gellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol. Dewis arall addas fyddai caniatáu i'r disgybl ddefnyddio cyfleusterau newid preifat, fel ystafell newid y staff neu ofod addas arall.*[38]

Dylid asesu'r defnydd o ystafelloedd newid gan blant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd fesul achos mewn trafodaeth â'r plentyn neu berson ifanc unigol. Fel gyda phob plentyn, dylai'r nod fod i sicrhau cymaint o integreiddio cymdeithasol â phosibl a hyrwyddo cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn dosbarthiadau addysg gorfforol a chwaraeon, gan sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn ddiogel ac yn gyfforddus a chanolbwyntio ar ei les.

Fel y nodir uchod, nid oes unrhyw reidrwydd cyfreithiol ar ysgol i ganiatáu i ddisgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd ddefnyddio ystafell newid un rhyw wedi'i chadw i ddisgyblion o'r rhyw arall, a bydd angen i ysgolion fod yn ymwybodol o'r effaith ar ddisgyblion eraill o gael disgybl o ryw gwahanol yn bresennol tra'u bod nhw'n dadwisgo.

## 6.4 Addysg Gorfforol a chwaraeon

Yn gyffredinol, bydd Addysg Gorfforol yn cael ei ddarparu ar ffurf rhyw gymysg mewn ysgolion cynradd ac felly mae'n annhebygol y bydd disgyblion traws ac amrywiol o ran rhywedd yn cael eu heithrio oherwydd eu rhyw. Ar lefel uwchradd mae gwersi Addysg Gorfforol yn aml yn cael eu gwahanu yn ôl rhyw. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu i ddisgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd y mae ei drawsnewid yn cael ei gefnogi gan yr ysgol, gymryd rhan mewn gwersi o'r fath gyda disgyblion o'r rhyw arall, bydd angen cynnal asesiad risg mewn perthynas â'r disgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd â'r disgyblion eraill dan sylw. Gweler Atodiad 9 am fformat enghreifftiol. I gael mwy o gyngor am achosion unigol, ac ar gwblhau'r Asesiad Risg, cysylltwch â Thîm Diogelu'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau - safeguardingeducation@bromorgannwg.gov.uk.

---

[38] https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/technical-guidance-schools-england (Adalwyd 13.5.21)

*Mae llawer o ysgolion a cholegau yn caniatáu i ddysgwyr trawsryweddol gymryd rhan mewn chwaraeon tîm gyda'r rhywedd y maen nhw'n uniaethu ag ef, oni bai bod pryderon diogelwch penodol sy'n atal hyn rhag digwydd.*

Mae’r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu gwahanu yn ôl rhyw "gweithgareddau a effeithir gan rywedd" sydd o natur gystadleuol. Mae gweithgaredd a effeithir gan rywedd yn "gamp, gêm neu weithgaredd arall o natur gystadleuol mewn amgylchiadau lle byddai cryfder corfforol, stamina neu gorffoledd pobl gyffredin o un rhyw yn eu rhoi dan anfantais o'u cymharu â phobl gyffredin o'r rhyw arall fel cystadleuwyr mewn digwyddiadau sy'n cynnwys y gweithgaredd", gan ystyried "oedran a cham datblygu plant sy'n debygol o fod yn gystadleuwyr".[39] Lle mae'r gwahanu yn ôl rhyw yn cynnwys gwahaniaethu oherwydd ailbennu rhywedd, caniateir hynny lle bo angen er budd tegwch neu ddiogelwch.

Mae'n annhebygol y byddai gan blentyn traws ac amrywiol o ran rhywedd, cyn y glasoed, fantais yn gysylltiedig â rhyw wrth gystadlu a chynrychioli'r ysgol, neu fyddai'n peri unrhyw risg diogelwch i gystadleuwyr eraill oherwydd ei ryw.  Fodd bynnag, bydd rhaid ystyried addasrwydd y cyfleusterau newid mewn 'gêm oddi cartref' a dylai staff sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael.

## 6.5 Teithiau preswyl

Bydd penderfynu ar lety addas ar deithiau preswyl yn gofyn am ystyried preifatrwydd y disgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd a disgyblion eraill a all gael eu lletya gydag ef, yn ogystal â materion diogelwch a diogelu posibl.  Dylid cynnal asesiad risg priodol bob amser. Gall rhoi disgyblion mewn sefyllfa o orfod dadwisgo (yn fwriadol neu'n ddiarwybod) ym mhresenoldeb disgyblion o'r rhyw arall arwain at herio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu'r Ddeddf Hawliau Dynol, yn enwedig lle mae'r disgyblion yn dod o gefndiroedd crefyddol neu gefndiroedd eraill sy'n gofyn am wyleidd-dra. Bydd angen i ysgolion ystyried a fydd angen rhannu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'r disgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd gydag eraill sy'n gysylltiedig (yn broffesiynol neu fel disgyblion) mewn unrhyw daith breswyl. Ni ddylid rhannu gwybodaeth o'r fath heb ganiatâd ond gall gwrthod caniatâd effeithio ar a ddylai, a sut y gall, disgybl traws ac amrywiol o ran rhywedd fod yn rhan o daith breswyl.

*Mae Estyn yn datgan ar deithiau preswyl, bod ysgolion a cholegau'n gweithio'n sensitif gyda phawb cysylltiedig i ystyried trefniadau cysgu. Yn achos teithiau tramor, mae staff yn ystyried yn ofalus y goblygiadau posibl o ran dogfennau swyddogol, fel pasbortau, nad ydynt yn cyd-fynd â’r rhywedd y mae’r disgybl neu'r dysgwr yn uniaethu ag ef, a'r amddiffyniad cyfreithiol sydd ar gael yng ngwlad y gyrchfan i ddysgwyr sy'n lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu drawsryweddol.*

[39] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/195 (Adalwyd 18.10.22)

## *6.6 Gwisg*

Pan fydd ysgolion wedi cytuno i gefnogi disgybl i drawsnewid yn gymdeithasol, dylent allu gwisgo mewn modd sy'n gyson â'u hunaniaeth rhywedd. Mae dechrau gwisgo yn y dillad sy'n gysylltiedig â hunaniaeth rhywedd rhywun yn gallu bod yn gam mawr a brawychus o bosibl. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd yn cael eu cefnogi'n llawn yn ystod y cyfnod hwn am y gall fod yn gynrychiolaeth weledol iawn o'r broses drawsnewid.

Byddai cael rhestr gwisgoedd ysgol di-rywedd yn dangos cefnogaeth i bob disgybl a myfyriwr ac yn enwedig y rhai nad ydynt yn cydymffurfio â stereoteipiau rhywedd a'r rhai sy'n draws ac yn amrywiol o ran rhywedd. Drwy ganiatáu i blant a phobl ifanc ddewis yr hyn maen nhw'n ei wisgo, bydd ysgolion yn caniatáu strwythur reoledig ac yn parhau i fod yn gynhwysol.

Argymhellir hyfforddiant staff i sicrhau bod pob aelod o staff yn deall beth mae'n ei olygu i fod yn draws ac yn amrywiol o ran rhywedd. Bydd rhaglenni ACRh yn herio syniadau ystrydebol o ran rhywedd sef i fod yn fenyw neu’n ddyn mae'n rhaid i chi edrych ryw ffordd benodol.

*Yn ôl Estyn, mae llawer o ysgolion a cholegau sydd â dysgwyr trawsryweddol yn cydnabod y gallen nhw fod eisiau newid sut maen nhw'n gwisgo i adlewyrchu eu hunaniaeth rhywedd ac mae ambell ysgol bellach yn sicrhau bod yr holl eitemau gwisg ysgol cymeradwy ar gael i bob person ifanc, pa bynnag ryw neu rywedd maen nhw'n uniaethu ag ef orau. Mae canllaw statudol diweddar Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfarwyddiadau clir i gyrff llywodraethu ar gynnwys eu polisi gwisg ysgol.*

## *6.7 Newidiadau i enwau a rhagenwau*

Efallai y bydd rhai plant a phobl ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd yn dymuno newid yr enw maen nhw'n cael eu hadnabod ganddo a'u rhagenw (e.e. ef, hi, nhw). Yn aml bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ac yn cael ei rannu gyda’r rhieni a gofalwyr.Gall rhai pobl sy'n credu nad yw eu hunaniaeth rhywedd yn ddeuaidd (bachgen/merch neu ddyn/menyw) ddefnyddio rhagenwau niwtral o ran y rhywiau (er enghraifft, 'nhw' neu 'zie').

Pan fydd y penderfyniad wedi'i wneud i gefnogi trawsnewid cymdeithasol disgybl yn yr ysgol, bydd parchu dewis y disgybl o ran enw a rhagenw yn agwedd bwysig ar y gefnogaeth hon.

Dylai staff hefyd geisio bod yn gyson gyda’u defnydd o ragenwau ac enwau a ffefrir, er mwyn amddiffyn cyfrinachedd plentyn neu berson ifanc ac i beidio ag achosi iddynt ddod ‘allan’

mewn ffyrdd a allai fod yn beryglus a thynnu sylw atynt. Os gwneir camgymeriad gydag enw neu ragenw, gellir ymddiheuro am hyn.

Bydd angen i staff weithio gyda'r plentyn neu berson ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd i gytuno ar sut i rannu unrhyw newidiadau i enwau a rhagenwau gyda'u tîm staff ehangach.

## Cofnodi Data Ysgolion; enw a rhywedd

Mae'r Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn nodi bod yn rhaid i ysgolion gael cofrestr o ddisgyblion yn ôl y 'rhyw' (cyfreithiol) a gofrestrwyd ar enedigaeth.

Nid yw'r Rheoliadau yn ei wneud yn ofynnol i ysgolion gyfeirio at ddisgybl traws gan eu bod wedi'u cofrestru ac os gwneir y penderfyniad i gefnogi'r trawsnewid cymdeithasol, gellir newid yr enw yn y cyd-destunau hyn.

## Rhagenw a gweithred newid enw

Mae'r gyfraith yn glir bod gan blentyn dros 16 oed yr hawl i newid ei enw cyfreithiol drwy weithred newid enw heb ganiatâd y rhai â chyfrifoldeb rhianta (CRh). I blentyn neu berson ifanc o dan 16 oed, mae angen caniatâd pawb sydd â chyfrifoldeb rhianta i newid enw yn gyfreithiol. Os nad oes rhiant yn bresennol neu os oes diffyg cefnogaeth gan y rhieni bydd hyn yn rhwystro'r broses.

Os nad yw'r disgybl yn newid ei enw yn gyfreithiol gall ysgolion barhau i gefnogi ei ddymuniadau i gael ei adnabod wrth enw gwahanol os ystyrir bod gwneud hynny er lles y disgybl ond dylai'r gofrestr ddangos enw gwreiddiol, cyfreithiol a rhyw y disgybl o hyd.

Er y gallai rhai pobl ifanc deimlo eu bod eisiau newid eu henw drwy weithred newid enw, efallai na fydd eraill yn teimlo bod hwn yn gam y maent yn barod neu'n gallu ei gymryd. Mae hyn yn golygu, er y gallant fod wedi sefydlu eu hunain o fewn yr ysgol dan enw dewisol, y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio eu henw geni wrth lenwi dogfennau arholiadau.

Mae'n bosibl y gallai hyn achosi gofid i'r unigolyn hwnnw a dylai staff gymryd gofal i gefnogi'r person ifanc. Dylai staff barhau i fod yn sensitif a chefnogol yn ystod y fath adegau.

## Adran enw cyfreithiol ac arholiadau

I wneud newidiadau i adran Enw Cyfreithiol y plentyn neu berson ifanc, mae angen tystiolaeth. Gweithred newid enw yw'r dystiolaeth hon fel arfer.

Mewn theori, gellir nodi pobl ifanc o dan unrhyw enw gyda bwrdd arholi ac mae'n bosibl i dystysgrifau arholiad gael eu cyhoeddi yn yr enw y gofynnir amdano, ond bydd angen meddwl yn ofalus am hyn. Dylai ysgolion a cholegau sicrhau bod strategaeth yn cael ei

chytuno gyda'r person ifanc a’i rieni a gofalwyr, ac yna'n cael ei chytuno â'r gwahanol fyrddau arholi cyn dechrau cyrsiau achrededig, oherwydd gall rhai arholiadau gael eu sefyll ym Mlwyddyn 10 a rhaid ystyried faint o amser y gallai’r broses ailgofrestru gymryd. Efallai y bydd gan fyrddau arholi brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc traws a byddant yn gallu arwain yr ysgol neu'r coleg drwy'r broses. Mae'n bosibl newid enwau ar dystysgrifau arholiad ond efallai bydd ffi am wneud hyn.

Unwaith y bydd canlyniad arholiad wedi'i achredu bydd yn gysylltiedig â Rhif Disgybl Unigryw neu Rif Dysgwr Unigryw a oedd yn y wybodaeth yn y cyfrifiad ysgolion a gyflwynwyd ym mis Ionawr y flwyddyn y cynhaliwyd yr arholiad. Dim ond gydag enwau cyfreithiol, yn hytrach nag enwau a ffefrir, y cysylltir Rhifau Disgybl Unigryw neu Rifau Dysgwr Unigryw, (mae'r term "enw cyfreithiol" yn cyfeirio at yr enw y dechreuodd y disgybl neu fyfyriwr addysg ag ef; dyma'r enw ar ei dystysgrif geni yn aml).

**Argymhellion:**

- Wrth anfon data am y disgybl neu'r myfyriwr i drydydd parti sicrhewch eich bod yn anfon y wybodaeth gywir bob amser.
- Sicrhewch fod yr enw dethol yn cael ei ddefnyddio ar dystysgrifau arholiad cyn eu hanfon at ddisgyblion a myfyrwyr.
- Cofiwch ymgysylltu â'r disgybl neu'r myfyriwr yn ogystal â'i rieni a'i warcheidwaid i gytuno ar strategaeth ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth gywir i'r byrddau arholi.
- Dylai'r swyddog arholi gysylltu â'r bwrdd arholi perthnasol i drafod ei brosesau.




## Rhywedd a'r cyfrifiad ysgolion

Mae'r Cyfrifiad Ysgolion yn gofyn am gofnodi rhywedd fel gwryw neu fenyw. Gall hyn fod yn arbennig o broblemus i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n uniaethu fel person anneuaidd. Mae canllawiau'r llywodraeth yn egluro y gellir cofnodi rhywedd sy’n cael ei hunan-ddatgan yn systemau gwybodaeth reoli (SGR) yr Ysgolion ac mae hyn yn bosibl gydag ateb SGR presennol yr Ysgolion (SIMS.net).

Dylai rhywedd gael ei ddatgan gan yr unigolyn a’i gofnodi yn ôl dymuniadau'r rhiant a / neu'r disgybl. Mae unigolion yn rhydd i newid y ffordd mae eu rhywedd yn cael ei gofnodi.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, nid yw'n ofynnol ar hyn o bryd i gofnodi myfyrwyr anneuaidd fel y cyfryw yn y Cyfrifiad Ysgolion, fodd bynnag mae hyn yn cael ei adolygu a gallai newid.[40]

### *6.8 Cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth*

Mae gan bawb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, hawl i breifatrwydd, er nad yw'r hawl hwnnw'n absoliwt. Gall gwybodaeth am hunaniaeth rhywedd, enw cyfreithiol, a rhyw a gofrestrwyd ar enedigaeth disgybl hefyd fod yn wybodaeth gyfrinachol.

***Ewch i adrannau 3.3 a 3.4 am fwy o wybodaeth.***

### *6.9 Profiad gwaith*

Pan fo sefydliad addysgol yn ystyried lleoliad profiad gwaith ar gyfer myfyriwr  traws ac amrywiol o ran rhywedd , rhaid i'r sefydliad gwblhau asesiad addas o'r lleoliad posibl er mwyn canfod a oes unrhyw risg (corfforol neu fel arall) yn gysylltiedig â'r lleoliad ac a yw'r lleoliad fel arall yn addas ar gyfer y myfyriwr.  Wrth wneud yr asesiad hwn dylai'r sefydliad addysgol ystyried y ffaith na ddylid, fel egwyddor gyffredinol, rannu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'r person ifanc traws ac amrywiol o ran rhywedd heb gydsyniad. Rhaid i ysgolion fod yn sensitif i hyn gyda'u gwaith cynllunio cyn i unrhyw berson ifanc traws gael ei leoli mewn unrhyw fusnes neu sefydliad. Mae angen cael trafodaeth ofalus am unrhyw leoliad arfaethedig gyda'r myfyrwyr a'r rhieni a gofalwyr cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei fod yn addas ac yn llwyddiannus.

### *6.10 Brechiadau*

Yn hanesyddol, mae brechiadau wedi eu rhoi i bobl ifanc gyda'i gilydd mewn gofod mawr fel neuadd chwaraeon.  Dylid rhoi ystyriaeth i ddisgyblion a myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd os yw'r brechiad yn un rhyw-benodol h.y. gallai bachgen traws ei chael hi'n anodd iawn sefyll mewn ciw o ferched sy'n aros am frechiad sy'n benodol i fenywod, neu gael eu gadael ar ôl pan fydd disgyblion o un rhyw yn cael eu gwahodd i adael y dosbarth am frechiad.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a Bro Morgannwg fel arfer yn cael lleoliad neuadd ysgol ar gyfer y sesiwn frechu ac mae'r disgyblion yn mynd i'r neuadd ac mae brechiadau'n cael eu rhoi i'r ddau ryw mewn ciw cymysg. Sgriniau preifatrwydd wedi eu gosod yn y sesiwn yn arbennig ar gyfer person ifanc nad yw ei ddillad efallai yn darparu mynediad hawdd i'w fraich uchaf at ddibenion brechu.

---

[40] Mae canllaw Cyfrifiad Ysgolion 2022/23 **yn** PLASC Tech Completion Notes (llyw.cymru)

Dylai'r staff nyrsio yn y sesiwn fod yn barchus wrth gynnal urddas disgyblion bob amser.

Mae clinigau dal i fyny hefyd yn cael eu cynnig mewn lleoliadau llai y tu allan i oriau ysgol i'r disgyblion hynny oedd yn absennol mewn sesiwn ysgol ac i ddisgyblion pryderus iawn y byddai'n well ganddynt fynd i sesiwn dawelach neu a hoffai gael rhiant/gwarcheidwad gyda nhw.

### 6.11 Delio gyda'r cyfryngau

Dylid cyfeirio pob ymholiad gan y cyfryngau am fyfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd i Swyddfa'r Wasg y Cyngor (press@valeofglamorgan.gov.uk). Dylai datganiadau bwysleisio ymrwymiad y Cyngor i oddefgarwch, cynwysoldeb, cydraddoldeb a derbyn. Mae'n bwysig pwysleisio mai pwrpas y pecyn cymorth yw sicrhau bod pob disgybl a myfyriwr yn ddiogel rhag bwlio a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ar bob cam dylid diogelu cyfrinachedd unigolion.

Gellir cwyno am sylw yn y wasg i Sefydliad Annibynnol Safonau'r Wasg drwy www.ipso.co.uk/

**Cofiwch**

- Staff sydd yn y sefyllfa orau i werthuso sut i gydbwyso unrhyw sensitifrwydd tra'n ystyried lles a chydraddoldeb myfyrwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd.
- Darparu dewis o wisg ysgol sy'n caniatáu i blant a phobl ifanc arfer dewis yn yr hyn maen nhw'n ei wisgo.
- Pan gytunir i ganiatáu i blentyn neu berson ifanc drawsnewid yn gymdeithasol yn yr ysgol, dylai staff ymdrechu i ddefnyddio eu henw a'u rhagenw dewisol.
- Nid yw gwisgo dillad ystrydebol di-rywedd yn golygu bod rhywun yn berson traws.
- Dylai ysgolion roi cefnogaeth os nad oes newid enw swyddogol wedi digwydd wrth baratoi am arholiadau.
- Nid oes angen newid enw drwy weithred newid enw i newid cofnodion yr ysgol ar systemau cronfa ddata ysgol megis SIMS.
- Ceisiwch gefnogaeth gan swyddogion yr awdurdod lleol os nad ydych yn siŵr sut i gefnogi unigolyn a'i deulu.

# 7 Staff a llywodraethwyr traws ac anneuaidd

Nid yw'r pecyn cymorth hwn yn cwmpasu anghenion staff a llywodraethwyr traws ac amrywiol o ran rhywedd . Fodd bynnag, gall staff a llywodraethwyr traws brofi heriau tebyg

i'r rhai a amlinellir yn y Pecyn Cymorth gan gynnwys bwlio ac aflonyddu. Anogir lleoliadau addysg i feddwl am sicrhau bod ganddynt bolisïau ac arferion effeithiol ar waith i gefnogi'r aelodau staff hyn. Gall undebau fod yn ddefnyddiol at y diben hwn.

Bydd holl gyflogeion Cyngor Bro Morgannwg yn cael cymorth drwy ystod o bolisïau a gweithdrefnau AD sy'n cael eu hargymell i ysgolion. Yn ogystal, mae cymorth lles ar gael drwy nifer o wasanaethau, gan gynnwys ein tîm Iechyd Galwedigaethol a'n cyfleuster Care First a Chymorth Addysg. Bydd ein cyflogeion hefyd yn gallu cael mynediad i rwydwaith GLAM y Cyngor, sy'n cynnig amgylchedd diogel a chefnogol i gydweithwyr godi ymwybyddiaeth o LHDT+ yn y gweithle a llwybr pwrpasol ar gyfer dylanwadu a chefnogi datblygiadau polisi neu ymarfer.

Gellir dod o hyd i ganllawiau ar gyfer gweithleoedd cynhwysol ar wefan Stonewall: Arfer gorau, pecynnau cymorth ac adnoddau | Stonewall.

# 8 Cymorth ychwanegol

### Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf

- Mae Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cyngor a chymorth i deuluoedd, fydd yn eu galluogi i ddatrys eu pryderon yn annibynnol neu'n eu helpu i ddod o hyd i wasanaethau priodol i gael eu hatgyfeirio iddynt.

  Nod Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf yw:

- Gwrando a rhoi cyngor ar ddiwallu anghenion teuluoedd
- Cymorth i ddod o hyd i wasanaethau i'ch teulu ym Mro Morgannwg a'u defnyddio
- Darparu cefnogaeth emosiynol ac arweiniad ymarferol i helpu i ddatrys pryderon a phroblemau y mae teuluoedd yn eu hwynebu

  Cyngor Teuluoedd yn Gyntaf yw'r un pwynt mynediad ar gyfer:
  *Tîm o Amgylch y Teulu
  *Gwasanaeth Rhianta'r Fro
  *Gwasanaeth Lles Ieuenctid
  *Allgymorth Dechrau'n Deg
  *Gofalwyr Ifanc
  *Asesiadau Rhieni a Gofalwyr Ifanc
  *Rhaglen Cygnet Barnardo

Ar gael i deuluoedd ym Mro Morgannwg gyda phlant rhwng 0 a 18 oed.

Mae'r Llinell Gyngor hefyd ar gael i weithwyr proffesiynol drafod gwasanaethau i deuluoedd y maent yn eu cynorthwyo.

***Dulliau Cysylltu***

- 0800 0327 322
- familiesfirstadviceline@valeofglamorgan.gov.uk

***Cyfryngau cymdeithasol***

- Facebook
- X

***Oriau agor***

Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Mercher, Dydd Iau a Dydd Gwener, 9.00am - 4.30pm

## Childline Cymru

Llinell gymorth 24-7 yw Childline i bobl ifanc allu cysylltu naill ai ar-lein neu dros y ffôn
www.childline.org.uk
ffôn 08001111

## Y Samariaid

Mae'r Samariaid yn wasanaeth llinell gymorth 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Ei nod yw gweithio gyda phobl i greu lle diogel lle gallant siarad am yr hyn sy'n digwydd a sut maen nhw'n teimlo.

www.samaritans.org.uk
ffôn 116123

## Tîm Diogelu'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau

Gall Tîm Diogelu Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau Cyngor Bro Morgannwg roi cyngor i ysgolion ar fynd i'r afael â bwlio neu ragfarn a gwaith achos i helpu gweithwyr proffesiynol i gefnogi teuluoedd a phlant sy'n profi bwlio neu ragfarn yn well. Ffôn: 01446 700111 neu e-bost:
safeguardingeducation@bromorgannwg.gov.uk

# Atodiad 1 Datganiad Cyd-destun

## Ymrwymiad Cyngor Bro Morgannwg i gydraddoldeb a chynhwysiant

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Gweledigaeth y Cyngor yw Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair.
Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi pedwar canlyniad allweddol yr ydym eisiau eu cyflawni er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, un o'r rhain yw:

- Bro gynhwysol a diogel

Fel sefydliad, rydym yn gweithio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i gynnal urddas a pharch holl drigolion y Sir, plant a phobl ifanc yn ein hysgolion, a'n staff. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb a Rheoliadau Cymru hefyd yn berthnasol i ysgolion.

Rydym yn deall bod cyd-destunau a thirweddau cymdeithasol a gwleidyddol yn newid dros amser. Rydym yn cydnabod bod hunaniaethau'n esblygu ac yn gymharol i gyd-destunau gwahanol. Felly, rydym yn parhau i fod yn agored i ddysgu o ysgolion, cymunedau gwahanol, ymchwil newydd, cyfraith achosion newydd, ac arfer gorau a defnyddio hyn i adolygu ein harfer yn barhaus a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Gweledigaeth y Cyngor yw Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi pedwar amcan lles corfforaethol y mae’n anelu at eu cyflawni.

Rydym wedi cysylltu ein hamcanion cydraddoldeb â'r amcanion lles corfforaethol hyn. Mae hyn yn alinio gwaith y Cyngor yn yr meysydd hyn ac yn prif-ffrydio ein gwaith ar fynd i'r afael â meysydd lle mae'r anfantais fwyaf dybryd.

Ein Hamcan Lles Corfforaethol cyntaf yw **gweithio gyda'n cymunedau ac i'n cymunedau**. Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cysylltu â hyn drwy nodi'r cymunedau mwyaf difreintiedig fel y nodwyd yn 'A yw Cymru’n Decach 2018' a thrwy ymgysylltu lleol.

Ein hail Amcan Lles Corfforaethol yw **cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.**

Nod ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw ategu dysgu a chyflogaeth ar gyfer grwpiau gwarchodedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig.

Ein trydydd Amcan Lles Corfforaethol yw **cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned.**

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned, gan roi sylw penodol i grwpiau gwarchodedig a nodwyd fel rhai difreintiedig yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a'n gwybodaeth a'n data lleol ein hunain.

Ein pedwerydd Amcan Lles Corfforaethol yw **parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd** .

Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio sicrhau bod ein hamgylchedd lleol yn gallu cael ei fwynhau gan ystod amrywiol o bobl, gan gynnwys pobl anabl.

Mae'r amcanion cydraddoldeb hyn yn ategu ein gwaith i gyflawni'r pum ffordd o weithio a chyfrannu at ein hamcanion lles fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn unol â'r pum ffordd o weithio ac maent hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng nghynnwys y Cynllun. Mae pwyslais mawr ar gydweithio wrth i'r Cyngor gydnabod yr angen i weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau a gwella lles lleol. Mae'r cynllun yn adlewyrchu pwysigrwydd atal, ac mae hyn wedi bod yn thema gref mewn llawer o'r gwaith ymgysylltu hyd yma. Mae hwn yn gynllun pedair blynedd, ond rydyn ni'n cydnabod bod llawer o'r materion yn rhai tymor hwy.

Rydym wedi datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol enghreifftiol y gall ysgolion ei addasu i adlewyrchu eu hamgylchiadau lleol. Mae'r cynllun enghreifftiol yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol corfforaethol sy'n ymwneud ag ysgolion:

- Gwella'r ffordd yr ydym yn cynnwys grwpiau gwarchodedig yn ein gwaith a'n penderfyniadau ac yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â nhw am y rheiny.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc a rhoi cymorth i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

Mae yna gamau cysylltiedig a chanlyniadau disgwyliedig gyda phob un o'r amcanion cydraddoldeb. Mae'r pecyn cymorth hwn yn cyd-fynd â'r rhain.

## Cyd-destun a hanes

Mae gan Gyngor Bro Morgannwg hanes hir o weithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol i gefnogi ysgolion i ddarparu amgylcheddau dysgu diogel i bob disgybl a myfyriwr.

Mabwysiadwyd y Pecyn Cymorth Cynhwysiant Trawsryweddol a'r Ddogfen Ganllaw i Ysgolion a lleoliadau eraill am y tro cyntaf gan Gyngor Bro Morgannwg yn 2018. Cyflwynwyd y ddogfen honno yn dilyn nifer o geisiadau, yn dyddio o 2016, gan ysgolion Bro Morgannwg yn gofyn am gyngor a chanllawiau ychwanegol. Cafodd y ddogfen ei llunio mewn ymateb ar ran pum Awdurdod Lleol Consortiwm Canolbarth y De. Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i awdurdodau lleol Cymru fabwysiadu'r Pecyn Cymorth a fabwysiadwyd hefyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, ac mewn rhai achosion a gafodd ei dynnu'n ôl wedyn, gan gynghorau eraill yng Nghymru.

Wrth gydnabod cyd-destunau cymdeithasol a gwleidyddol a thirweddau sy'n newid dros amser, yn fwy diweddar mae'r Cyngor wedi bod yn bwrw ymlaen â'i adolygiad o'r pecyn cymorth ar ôl cysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol eraill yn Lloegr a mannau eraill yng Nghymru. Fe wnaeth pandemig Coronafeirws (Covid-19) ohirio cynnydd gyda'r gwaith hwn, ond wrth i ni ddod allan o'r pandemig, mae'r gwaith hwn wedi bod yn parhau. Mae'n bwysicach nag erioed sicrhau bod cyngor priodol yn cael ei roi i ysgolion er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'r Awdurdod Lleol yn cael eu cyflawni mewn cysylltiad â phob person sydd â nodwedd warchodedig, ac ystyried y datblygiadau mewn cyfraith achosion ac adolygiadau a wnaed.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod hunaniaethau'n esblygu ac yn gymharol i gyd-destunau gwahanol. Felly, wrth ymgynghori'n eang ar ddogfen bolisi'r Cyngor, rydym yn parhau i fod yn agored i ddysgu o ysgolion, cymunedau gwahanol, ymchwil newydd, cyfraith achosion newydd, ac arfer gorau a defnyddio hyn i adolygu ein harfer yn barhaus a sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol.

## Sylfaen ymchwil

Mae ffurfio pecyn cymorth Bro Morgannwg wedi dibynnu'n helaeth ar y Brighton & Hove Trans-inclusion Guidance wnaeth ddangos yr ymchwil a'r ymgynghoriad manwl a gynhaliwyd gan Gyngor Dinas Brighton a Hove. Yn gryno, cyflawnwyd hyn dros nifer o flynyddoedd, gan ddechrau yn 2013. Nod Panel Craffu ar Gydraddoldeb Traws Brighton a Hove oedd gofyn: *beth sydd angen ei wneud i wneud pethau'n decach i bobl draws fyw, gweithio a chymdeithasu yn y ddinas?* Gwrandawodd aelodau'r panel ar straeon pobl draws

o wahaniaethu, anfantais, trawsffobia ac anweledededd. Roedd eu hadroddiad terfynol yn gwneud sawl argymhelliad, un ohonynt oedd cynnal asesiad anghenion llawn er mwyn deall hyd a lled y materion. Cynhaliwyd ymchwil ansoddol a meintiol helaeth dan arweiniad y GIG a Chyngor Dinas Brighton a Hove mewn partneriaeth â Phrifysgol Brighton a mudiadau Sector Cymunedol a Gwirfoddol yn y ddinas. CyhoeddwydThe Trans Needs assessment report yn 2015.

Amlygodd yr Asesiad Anghenion Traws lefel y gwahaniaethu a'r rhagfarn a oedd yn parhau i bobl draws yn Brighton a Hove. Nododd hefyd gryfderau'r gymuned draws leol gan ddarparu argymhellion ymarferol ar sut y gellid mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sut y gellid gwella gwasanaethau lleol a chenedlaethol.

Bydd y Pecyn Cymorth yn cael ei adolygu a'i newid yn barhaus mewn ymgynghoriad â phartneriaid ac ysgolion ac mewn ymateb i newidiadau cyfreithiol.

# Atodiad 2 Data cenedlaethol

Mae Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth yn amcangyfrif bod llai nag un y cant o'r boblogaeth yn draws. Ni fydd pob plentyn sy'n cwestiynu ei hunaniaeth rhywedd yn tyfu i fyny i uniaethu fel person traws neu anneuaidd. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y bobl ifanc sy'n cael cymorth arbenigol gan Wasanaethau Datblygu Hunaniaeth Rhywedd y GIG[41]; er o ran niferoedd cyffredinol, mae cyfran y bobl ifanc sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn yn dal i fod yn llawer llai nag un y cant o'r boblogaeth ieuenctid.

Yn Adroddiad Cyfleoedd Ieuenctid Metro, 2016 roedd dros hanner yr ymatebwyr traws (58%) yn gwybod eu bod yn draws erbyn eu bod yn 13 oed.

Mae amryw astudiaethau ymchwil wedi dangos bod salwch meddwl, syniadau am hunanladdiad, ceisio hunanladdiad a chwblhau hunanladdiad yn uwch ymysg pobl draws na phobl cydryweddol. Mae rhai astudiaethau wedi canfod bod pobl ifanc traws mewn mwy o berygl o hunan-niweidio gan gynnwys Adroddiad Ysgolion Stonewall, 2017.

Canfu Adroddiad Ysgolion Stonewall, 2017 y canlynol hefyd:

- Mae bron hanner y disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (45%) – gan gynnwys 64 y cant o ddisgyblion traws – yn cael eu bwlio am fod yn LHDT yn yr ysgol.
- Mae bron hanner y disgyblion LHDT (45%) gafodd eu bwlio am fod yn LHDT heb ddweud wrth unrhyw un am y bwlio.
- Mae saith o bob deg disgybl LHDT (68%) yn dweud bod athrawon neu staff ysgol ond yn herio iaith homoffobig, deuffobig a thrawsffobig ‘weithiau’, neu ‘byth’, pan fyddan nhw'n ei chlywed.
- Mae saith o bob deg disgybl LHDT (68%) yn dweud bod eu hysgolion yn dweud bod bwlio homoffobig a deuffobig yn anghywir, ond dim ond pedwar o bob deg (41%) sy'n dweud bod eu hysgolion yn dweud bod bwlio trawsffobig yn anghywir.
- Mae tri o bob pedwar disgybl LHDT (77%) yn dweud nad ydynt erioed wedi dysgu am hunaniaeth rhywedd a beth yw ystyr 'traws' yn yr ysgol.
- Mae mwy na dau o bob pum disgybl traws (44%) yn dweud nad yw staff eu hysgol yn gyfarwydd â'r term 'traws' a beth mae'n ei olygu.

[41] Gwasanaeth Hunaniaeth Rhywedd https://gids.nhs.uk/number-referrals

Rhaid bod yn ofalus wrth rannu unrhyw ddata ar iechyd meddwl, hunan-niweidio a hunanladdiad gyda phlant a phobl ifanc. Ceir canllawiau ar ddatblygu ysgolion sy'n ymwybodol o hunanladdiad yn:
www.samaritans.org/how-we-can-help/schools/ a www.papyrus-uk.org/

# Atodiad 3 Mwy o wybodaeth am y fframwaith cyfreithiol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, aflonyddu ac erledigaeth sy’n gysylltiedig â’r nodweddion gwarchodedig.

- oedran (ar gyfer staff yn unig)
- anabledd
- ailbennu rhywedd
- priodas a phartneriaeth sifil (ar gyfer staff yn unig)
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn nodi:

> Mae gan berson y nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd os yw'r person hwnnw yn cynnig ymgymryd â, wrthi’n ymgymryd â neu wedi ymgymryd â phroses (neu ran o broses) at ddiben ailbennu rhyw’r person trwy newid priodoleddau ffisiolegol neu briodoleddau rhyw eraill. [42]

Ni fydd gan bawb sy'n nodi eu bod yn "draws" nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd ond mi fydd gan lawer. Mae'r achos perthnasol diweddaraf yn awgrymu bod y term yn ddigon eang i gwmpasu:

(1) y rhai nad yw eu trawsnewid yn feddygol ond sy'n cynnwys 'newid agweddau anffisiolegol ar ryw, fel enw rhywun a/neu sut mae rhywun yn gwisgo dillad neu wallt, neu'n siarad neu'n gweithredu';

(2) y rhai sy'n 'bwriadu mynd trwy’r broses', yn ogystal â'r rhai sy'n cael neu wedi cael, y cyfan neu ran o broses 'ailbennu ... rhyw', cyn belled â'u bod wedi gwneud 'penderfyniad ymwybodol, y gellir ei ddisgrifio'n briodol fel un sydd wedi'i setlo, i fabwysiadu rhyw agwedd ar hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r hyn a neilltuwyd ar

[42] Adran 7 y Ddeddf Cydraddoldeb https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/7 (Adalwyd 19.5.20)

enedigaeth. Nid yw mympwy byrhoedlog yn gwneud y tro, ond nid oes angen bwriad chwaith y dylai'r newid fod yn barhaol'.[43]

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei wneud yn ofynnol i ddisgyblion sydd â nodwedd warchodedig ailbennu rhywedd gael eu trin fel pe baent o ryw ac eithrio'r hyn sydd wedi'i gofrestru ar eu genedigaeth. Nid yw'n ei wneud yn ofynnol chwaith bod disgyblion o'r fath yn cael caniatâd i drawsnewid yn gymdeithasol yn yr ysgol. Mae'n ei wneud yn ofynnol nad oes gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu nodwedd warchodedig.

Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fydd person yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig. Gallai hyn ddigwydd lle (er enghraifft) gwrthodir mynediad i fachgen i dîm pêl-droed merched. Mae'r un peth yn wir lle gwrthodir mynediad i ferch draws i dîm pêl-droed merched am nad yw'n cael ei chydnabod fel merch. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn caniatáu rhywfaint o wahaniaethu ar sail rhyw, gan gynnwys mewn perthynas â chwaraeon cystadleuol. Bydd p'un a yw gwahaniaethu o'r fath yn gyfreithlon ai peidio yn dibynnu ar anghenion a lles y merched yn y tîm pêl-droed yn ogystal â rhai'r bachgen neu'r ferch draws sy'n dymuno cael mynediad iddo, a gall methu ag ystyried eu lles arwain at wahaniaethu ar sail rhyw yn erbyn y merched hynny.

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd lle mae'r un rheol yn cael ei chymhwyso i bawb ond yn cael effaith wahaniaethol ar bobl mewn rhai grwpiau a ddiffinnir drwy gyfeirio at nodweddion gwarchodedig, oni bai bod y rheol yn gymesur â nod cyfreithlon. Bydd gwrthod mynediad i fechgyn a merched traws i dîm pêl-droed merched yn unig yn cael effaith wahaniaethol ar ferched traws (sy'n fwy tebygol o fod eisiau chwarae yn y tîm). Bydd p'un a yw gwahaniaethu o'r fath yn gyfreithlon ai peidio yn dibynnu ar anghenion a lles y merched yn y tîm pêl-droed yn ogystal â rhai'r bachgen neu'r ferch draws sy'n dymuno cael mynediad iddo, a gall methu ag ystyried eu lles arwain at wahaniaethu ar sail rhyw yn erbyn y merched hynny.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn amddiffyn rhag aflonyddu sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig (er nad yw, yn achos aflonyddu sy'n gysylltiedig â chrefydd, cred neu aflonyddu rhywiol ar ddisgyblion). Mae aflonyddu yn digwydd pan fydd person yn destun ymddygiad dieisiau gyda'r bwriad neu'r effaith o amharchu neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, bychanus neu sarhaus iddyn nhw.

Dylid nodi bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru "cred" fel nodwedd warchodedig. Mae gan hyn oblygiadau o ran i ba raddau y gallai fod yn ofynnol neu'n ddisgwyliedig i

[43] *R (AA & Ors) v National Health Service Commissioning Board)* [2023] EWHC 43 (Admin), §§130-132.

ddisgyblion, yn enwedig, "gadarnhau" hunaniaeth rhywedd traws. Yn ogystal, mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi Erthygl 9 sy'n amddiffyn rhyddid crefydd a chred ac Erthygl 10 sy’n amddiffyn rhyddid mynegiant y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar waith yn y DU. Mae ysgolion yn awdurdodau cyhoeddus at ddibenion Deddf 1998 ac mae'n rhaid iddynt weithredu'n gyson â darpariaethau'r Confensiwn. Trafodir y materion hyn ymhellach isod.

Yn olaf, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys ysgolion i roi "sylw dyledus" i'r angen i (a) ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu; (b) datblygu cyfle cyfartal; a (c) meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a’r rheiny nad ydynt yn eu rhannu.[44] Mae cydymffurfio â'r ddyletswydd hon (y cyfeirir ati fel "Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus" neu "DCSC") yn ei gwneud yn ofynnol i’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau ystyried goblygiadau cydraddoldeb posibl polisïau a phenderfyniadau mawr wrth ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau, nid fel ôl-ystyriaeth. Dylai lleoliadau addysg gadw cofnod o'u penderfyniadau, gan gynnwys ystyried goblygiadau cydraddoldeb, a dylent adolygu goblygiadau polisïau a phenderfyniadau mawr yn gyson.

[44] Adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/section/149 (Adalwyd 13.10.22)

# Atodiad 4 Diffiniadau - bwlio a rhagfarn

Mae cyd-ddealltwriaeth o fwlio a digwyddiadau'n seiliedig ar ragfarnau yn bwysig er mwyn atal ac ymateb yn effeithiol. Mae Polisi Gwrth-fwlio Enghreifftiol Bro Morgannwg (..\Learning & Skills Model Anti-Bullying policy January 2021 (English).docx ..\Polisi Gwrth-fwlio Model Dysgu a Sgiliau Ionawr 2021 (Cymraeg).docx yn argymell bod bob achos o fwlio a rhagfarn yn cael eu cofnodi yn ôl math. Drwy wneud hyn gall ymddygiad gael ei fonitro a'i ddefnyddio i lywio ymarfer ac i fesur effaith gweithgareddau.

## Bwlio

"Mae bwlio'n ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, a ailadroddir dros amser, sy'n brifo unigolyn neu grŵp arall yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol. Gall bwlio ddigwydd mewn sawl ffurf (er enghraifft, seiber-fwlio drwy negeseuon testun, cyfryngau cymdeithasol neu gemau cyfrifiadurol, sy'n gallu cynnwys defnyddio delweddau a fideos) ac sy'n aml yn cael ei ysgogi gan ragfarn yn erbyn grwpiau penodol, er enghraifft ar sail hil, crefydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, anghenion addysgol arbennig neu anableddau, neu oherwydd bod plentyn wedi'i fabwysiadu, mewn gofal neu â chyfrifoldebau gofalu. Gallai gael ei ysgogi gan wahaniaethau gwirioneddol rhwng plant, neu wahaniaethau canfyddedig."[45]

## Bwlio Trawsffobig

Bwlio trawsffobig yw pan mae rhywun yn cael ei fwlio am fod yn berson traws, neu'n cael ei ystyried yn berson traws.

Pan na ystyrir bod plant a phobl ifanc yn cydymffurfio â'r rolau rhywedd amlwg a allai fod yn gyffredinol ddisgwyliedig ohonynt, dylai ysgolion fod yn ymwybodol o arwyddion o fwlio. Caiff bwlio trawsffobig ei ategu'n aml gan agweddau rhywiaethol a gall effeithio ar unrhyw blentyn neu unigolyn ifanc. Gall unigolyn hefyd brofi bwlio trawsffobig o ganlyniad i ganfyddiadau nad yw rhiant, perthynas neu ffigwr arwyddocaol arall yn cydymffurfio â stereoteipiau o ran mynegiant rhywedd neu fod y person hwnnw'n draws.

## Achosion yn seiliedig ar ragfarn

Digwyddiad unwaith yn unig yw hwn sy'n cael ei ystyried gan y dioddefwr neu unrhyw un arall fel un sydd wedi cael ei ysgogi gan elyniaeth, rhagfarn neu anwybodaeth, yn seiliedig

---

[45] Atal a mynd i'r afael â bwlio, yr Adran Addysg 2013 https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/623895/Preventing_and_tackling_bullying_advice.pdf (Adalwyd 26.5.20)

ar y ffactorau canlynol (boed yn wir neu'n ganfyddedig): ethinigrwydd, rhyw, anabledd, crefydd, credoau, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth rhywedd rhywun neu ei gysylltiad â rhywun o un o'r grwpiau hyn.  Gall y rhain hefyd gynnwys rhagfarn anuniongyrchol a ysgogir gan ymddygiad nad yw wedi'i dargedu at un person yn unig. Gall effaith y mynegiant hwn o ragfarn yn erbyn grŵp cydraddoldeb, boed yn fwriadol neu beidio, fod yn niweidiol ac felly mae'n rhaid ymateb i ddigwyddiadau o'r fath fel digwyddiad yn ymwneud â rhagfarn.

'Digwyddiadau Casineb' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan yr heddlu a sectorau eraill i ddisgrifio digwyddiadau sy'n seiliedig ar ragfarn. Dylai ysgolion fod yn ymwybodol y dylai achosion mwyaf difrifol o fwlio a digwyddiadau sy'n seiliedig ar ragfarn gael eu hadrodd i'r heddlu.

## Digwyddiad Trawsffobig

"Unrhyw ddigwyddiad sy'n cael ei ystyried gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall fel un sydd wedi'i ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn yn erbyn person sy'n drawsryweddol neu berson sy'n cael ei ystyried yn drawsryweddol"[46].

[46] Gwasanaeth Erlyn y Goron https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/homophobic-biphobic-and-transphobic-hate-crime-prosecution-guidance

# Atodiad 5 Canllaw i bolisïau Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws

| | |
|---|---|
| Polisi | Enghraifft o ddull gweithredu cynnwys plant a phobl ifanc traws (darllenwch adrannau perthnasol y pecyn cymorth hwn i lywio'r gwaith o ysgrifennu adran bolisi berthnasol ymhellach) |
| Polisi Cydraddoldeb | Dylai hwn fod yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 gan gyfeirio at ailbennu rhywedd fel nodwedd warchodedig. Dylai pob polisi gynnwys nodwedd warchodedig rhyw yn ogystal ag ailbennu rhywedd. Gallai'r polisi hwn gyfeirio at y *Pecyn Cymorth Cynnwys Plant a Phobl Ifanc Traws* hwn drwy ddweud er enghraifft bod y lleoliad yn gweithio o fewn y canllawiau sy'n cael eu darparu gan Gyngor Bro Morgannwg. |
| Polisi Gwrth-fwlio | Cofiwch gynnwys cyfeiriad at fwlio rhywiaethol, homoffobig, deuffobig a thrawsffobig (ochr yn ochr â bwlio sy'n gysylltiedig ag unrhyw nodwedd warchodedig arall) ac egluro sut mae bwlio a digwyddiadau sy'n seiliedig ar ragfarn yn cael eu cofnodi yn ôl math, eu dadansoddi a'u monitro. |
| Polisi Addysg Gorfforol a Gweithgaredd Corfforol | Nodwch fanylion am yr hyn sydd ar waith i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio ystafelloedd newid yn cael eu cadw'n ddiogel. Nodwch sut y bydd disgyblion a myfyrwyr traws yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn Addysg Gorfforol a gweithgaredd corfforol (gan gynnwys nofio) a'u galluogi i ddefnyddio cyfleusterau newid priodol. Nodwch sut y bydd cyfleusterau newid yn cael eu rheoli ar gyfer gemau oddi cartref. |
| Polisïau ymweliadau, teithiau a theithiau preswyl ysgol | Nodwch sut y bydd disgyblion a myfyrwyr yn cael cymorth i gymryd rhan mewn teithiau preswyl. Nodwch sut y bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phlant a phobl ifanc traws a'u teuluoedd i gefnogi hyn. |
| Polisïau Addysg ACRh | Nodwch sut y bydd y cwricwlwm ACRh (gan gynnwys addysg perthnasoedd, rhyw ac iechyd statudol) yn cefnogi dealltwriaeth o hunaniaethau traws ac yn cynnwys plant a phobl ifanc traws. |
| Polisi Gwisg | Caiff eitemau gwisg eu rhestru, yn hytrach na'u rhestru yn ôl rhywedd. Mae datganiad wedi'i gynnwys i gwmpasu newidiadau cymeradwy i wisgoedd nofio ar gyfer disgyblion a myfyrwyr traws ac eraill y mae angen addasiadau ar eu cyfer fel y rhai o gefndiroedd ffydd. |
| Diogelu, Cyfrinachedd, Diogelu Data | Fel y bo'n briodol, mae'r rhain yn esbonio sut y gwneir newidiadau i wybodaeth bersonol ac yn egluro'r canlynol:<br>Nid yw bod yn draws yn fater diogelu<br>Ni fydd aelodau traws o'r gymuned yn cael eu datgelu fel person traws heb eu caniatâd oni bai bod rhesymau diogelu dros wneud hynny |
| Polisïau anghenion addysgol arbennig / ADY ac anableddau | Nodwch y datganiad bod disgybl neu fyfyriwr sydd ag AAA / ADY a/neu sy'n anabl yr un mor debygol o fod yn draws neu'n cwestiynu ei rywedd ag unrhyw berson arall gan gyfeirio er mwyn cefnogi eu hanghenion. |

| | |
|---|---|
| Polisïau addysgu a dysgu / ymddygiad / cydberthynas | Bydd y polisïau hyn hefyd yn annog dulliau sy'n gynhwysol, yn cynrychioli'r gymuned ac yn atal ac yn herio rhywiaeth, homoffobia, deuffobia a thrawsffobia. |

# Atodiad 6 Templed ar gyfer datganiad lefel ysgol ar arfer da wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc traws yn ein hysgol

Dylai lleoliadau addysg gynnwys cyfeiriad at gynnwys plant a phobl ifanc traws ar draws y fframwaith polisi fel y'i disgrifir yn Atodiad 8. Ond efallai y bydd rhai lleoliadau eisiau rhannu negeseuon allweddol â phob aelod o staff sy'n amlinellu sut y bydd plant a phobl ifanc traws yn cael eu cefnogi. Gellir addasu'r datganiad hwn felly i adlewyrchu arferion mewn ysgolion a'i rannu gyda staff yn dilyn hyfforddiant ac fel un agwedd ar arfer y lleoliad i wella cydraddoldeb a chynhwysiant. Argymhellir bod aelod penodol o staff sydd â hyfforddiant ac arbenigedd i gefnogi plant a phobl ifanc traws.

| |
|---|
| Caiff datgeliadau o hunaniaeth draws eu rhannu gyda'r [aelod penodol o staff] er mwyn sicrhau bod penderfyniadau priodol yn cael eu gwneud i gefnogi'r plentyn neu'r person ifanc |
| Byddwn ni'n cymryd ein harweiniad gan blant a phobl ifanc ac yn eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau fydd yn effeithio arnyn nhw |
| Byddwn ni'n darparu mynediad i amrywiaeth o doiledau a chyfleusterau newid priodol, gan sicrhau bod pawb sy'n defnyddio ystafelloedd newid a thoiledau yn cael eu cadw'n ddiogel (atodiad 8) |
| Byddwn yn diweddaru ein cofnodion. [Aelod penodol o staff] fydd yn gyfrifol am hyn a rhannu'r newidiadau a wnaed) |
| Byddwn ni'n cefnogi pob disgybl / myfyriwr i wisgo gwisg ysgol a dillad addysg gorfforol sy'n cyd-fynd â'u hunaniaeth rhywedd |
| Byddwn yn cymryd cyfrinachedd o ddifrif ac ni fyddwn yn datgelu bod plentyn neu berson ifanc traws yn berson traws heb ei ganiatâd oni bai bod rheswm diogelu dros wneud hyn |
| Byddwn yn defnyddio'r cwricwlwm a chyfleoedd eraill i herio stereoteipio ar sail rhyw, rhywiaeth, homoffobia, deuffobia a thrawsffobia a byddwn yn cynrychioli amrywiaeth fel rhan o'n gwaith cydraddoldeb ehangach |
| Byddwn yn nodi, yn cofnodi ac yn herio pob digwyddiad sy'n cynnwys rhagfarn neu fwlio, gan gynnwys y rheiny sy'n rhywiaethol, homoffobig, deuffobig a thrawsffobig |

# Atodiad 7 Dull gweithredu lleoliad cyfan o gynnwys plant a phobl ifanc traws – offeryn archwilio a chynllunio gweithredu

| **Maes ffocws** | **Gweithgareddau a awgrymir (gallai'r rhain gael eu graddio'n rhai CMG)** | **Y camau nesaf / Camau gweithredu a nodwyd** | **Ar waith√** |
|---|---|---|---|
| Mae materion traws a thrawsffobia yn cael eu cydnabod ar draws y fframwaith polisi | Cyfeiriwch at ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud neu a fydd yn cael ei gwneud ar gyfer disgyblion a myfyrwyr traws yn y Polisi Cydraddoldeb.<br><br>Nodwch amcan cydraddoldeb (Dyletswydd Sector Cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010) sy’n cefnogi anghenion plant a phobl ifanc traws.<br><br>Cyfeiriwch at drawsffobia wrth sôn am ffurfiau seiliedig ar ragfarn o fwlio yn y polisi gwrth-fwlio.<br><br>Yn y polisi gwisg ysgol, rhestrwch eitemau gwisg ysgol sy'n dderbyniol yn yr ysgol, ond peidiwch â rhestru yn ôl rhywedd.<br><br>Pan fydd grwpiau o ddisgyblion neu fyfyrwyr yn cael eu nodi neu eu trafod sicrhewch fod hyn yn cynnwys disgyblion traws lle bo hynny'n briodol. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cydnabod y gallai fod pobl draws yn y lleoliad addysgol fel aelodau o'r teulu, staff, llywodraethwyr a disgyblion | Sicrhewch fod datganiad yn y Wybodaeth Cydraddoldeb i'r ysgol (sy'n ofynnol o dan y Ddyletswydd Sector Cyhoeddus) sy'n nodi y gallai fod aelodau traws o'r gymuned.<br><br>Defnyddiwch wasanaethau ysgol i ddathlu amrywiaeth pobl draws a sicrhewch fod disgyblion a myfyrwyr yn deall bod trawsffobia yn annerbyniol yn y gymuned ysgol.<br><br>Defnyddiwch iaith gynhwysol fel 'pob rhywedd' / 'pawb', lle y bo'n briodol, i osgoi gwneud rhagdybiaethau am hunaniaeth rhywedd unigolyn. | | |
| | | | |
| **Maes ffocws** | **Gweithgareddau a awgrymir (gallai'r rhain gael eu graddio'n rhai CMG)** | **Y camau nesaf / Camau gweithredu a nodwyd** | **Ar waith√** |
| Monitro'n fanwl holl feysydd y cwricwlwm, adnoddau a dulliau addysgu a dysgu er mwyn sicrhau, lle bo'n bosibl:<br><br>bod pobl draws yn weledol<br><br>bod stereoteipiau rhywedd neu ddeunydd trawsffobig yn cael eu hosgoi a<br><br>bod disgyblion a myfyrwyr traws yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn yr ystafell ddosbarth | Sicrhewch fod y llyfrgell yn cynnwys llyfrau sy'n briodol i oedran, sy'n archwilio amrywiaeth.<br><br>Trafodwch a heriwch ragfarn ar sail rhyw, stereoteipio yn ôl rhywedd a thrawsffobia pan mae'n codi ac fel rhan o gyfleoedd wedi eu cynllunio mewn addysg ACRh. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhewch fod y cwricwlwm ac addysg ACRh a gwaith yn ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn cael eu defnyddio i herio stereoteipiau o ran rhywedd, cefnogi'r gwaith o ddatblygu ymdeimlad cadarnhaol o hunaniaeth rhywedd ac i atal trawsffobia | Gellir defnyddio llyfrau mewn gwersi Saesneg neu lythrennedd i drafod hunaniaethau traws, stereoteipio ar sail rhywedd a rhagfarn ar sail rhyw.<br><br>Gall pob pwnc ddarparu esiamplau sy'n herio stereoteio ar sail rhywedd a stereoteipiau eraill a chodi dyheadau ar gyfer pob grŵp.<br><br>Dylid defnyddio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) i ddatblygu dealltwriaeth o bobl draws, stereoteipio ar sail rhywedd a rhagfarn ar sail rhyw ac i esbonio mai sbectrwm yw hunaniaeth rhywedd, mewn ffordd sy'n briodol i oedran. | | |
| Herio, cofnodi ac ymdrin yn effeithiol ag achosion o gam-drin, aflonyddu a bwlio trawsffobig (fel galw enwau, jôcs difrïol, graffiti, ymddygiad annerbyniol neu ddi-angen, cwestiynau busneslyd) ac yna monitro achosion o gam-drin, aflonyddu a bwlio trawsffobig, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio datblygiadau ysgol gyfan. | Mae achosion o fwlio a digwyddiadau seiliedig ar ragfarn yn cael eu cofnodi yn ôl math.<br><br>Mae canllawiau neu sgriptiau ar sut i herio iaith ac agweddau trawsffobig yn effeithiol yn cael eu rhoi i staff.<br><br>Mae staff, disgyblion a myfyrwyr yn cael hyfforddiant a chyfleoedd addysgol i ddatblygu sgiliau wrth herio pob math o iaith ac ymddygiad rhagfarnllyd gan gynnwys iaith ac ymddygiad rhywiaethol, homoffobig, deuffobig a/neu drawsffobig. | | |
| **Maes ffocws** | **Gweithgareddau a awgrymir (gallai'r rhain gael eu graddio'n rhai CMG)** | **Y camau nesaf / Camau gweithredu a nodwyd** | **Ar waith√** |
| Cynnwys materion traws mewn hyfforddiant cydraddoldeb i staff a | Darperir hyfforddiant, cefnogaeth neu wybodaeth am ymwybyddiaeth traws i gymuned yr ysgol gyfan (gan gynnwys | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| llywodraethwyr a chefnogi dealltwriaeth y gymuned ehangach o bobl draws. | rhieni a gofalwyr). | | |
| Cymryd rhan mewn digwyddiadau megis Mis Hanes LHDT a sicrhau y rhoddir sylw i bobl draws a'u cyflawniadau. | Nodi Mis Hanes LHDT, Diwrnod Gwelededd Trawsryweddol a/neu Ddiwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia a Deuffobia<br><br>Defnyddiwch arddangosiadau i ddathlu cyflawniadau amrywiaeth o bobl draws.<br><br>Sicrhewch fod y llyfrgell yn cadw llyfrau sy'n briodol i oedran am blant, pobl ifanc ac oedolion traws. | | |
| Anfon gohebiaeth i bob rhiant a gofalwr sy'n cyfeirio at y gwaith sydd ar y gweill i wneud y lleoliad addysgol yn un sy'n cynnwys pobl draws ac os yw'n briodol cyfeirio at gyfleoedd iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth<br>o bobl draws | Hyrwyddo ar gylchlythyrau a'r wefan y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr ysgol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb rhywiol, cynnwys pobl draws a gwaith i atal homoffobia, deuffobia a thrawsffobia. | | |

| **Maes ffocws** | **Gweithgareddau a awgrymir (gallai'r rhain gael eu graddio'n rhai CMG)** | **Y camau nesaf / Camau gweithredu a nodwyd** | **Ar waith√** |
|---|---|---|---|
| Rhoi cymorth priodol i ddisgyblion a myfyrwyr sy'n uniaethu fel pobl draws a'u hatgyfeirio nhw a'u teuluoedd pan fo angen i wasanaethau cenedlaethol neu leol | Mae cefnogwyr neu oedolion dibynadwy ar gyfer disgyblion a myfyrwyr LHDT yn cael eu nodi fel rhai i siarad â nhw neu i fynd atynt gydag unrhyw faterion sy'n codi mewn diwrnod ysgol.<br><br>Mae amrywiaeth o doiledau ar gael i bawb.<br><br>Caiff newidiadau o ran enwau a rhywedd eu gwneud ar systemau.<br><br>Mae teithiau preswyl yn hygyrch i bob disgybl a myfyriwr a gwneir addasiadau rhesymol pan fo angen. | | |

# Atodiad 8 – Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb

**1. Beth ydych chi'n ei asesu?**

| |
|---|
| |

**2. Pwy sy'n gyfrifol?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | | **Teitl y Swydd** | |
| **Tîm** | | **Cyfarwyddiaeth** | |

**3. Pryd mae'r asesiad yn cael ei gynnal?**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad dechrau'r asesiad** | |

**4. Disgrifiwch y cynnig.**

| |
|---|
| **Beth yw pwrpas y cynnig?** |
| **Pam mae angen i chi ei roi ar waith?** |

| |
|---|
| **A oes angen i ni neilltuo adnoddau sylweddol ar ei gyfer (fel arian neu amser staff)?** |
| **Beth yw canlyniadau bwriadedig y cynnig?** |
| **Ar bwy mae'r cynnig yn effeithio?**<br><br>**Sylwer: Os yw'r cynnig yn effeithio ar bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, neu drawsryweddol, sicrhewch eich bod yn cynnwys cyplau o'r un rhyw yn benodol a defnyddio iaith niwtral o ran y rhywiau.** |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar sut mae sefydliadau eraill yn gweithio?** |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar sut yr ydych yn darparu gwasanaethau?** |
| **A fydd y cynnig yn effeithio ar bolisïau neu arferion eraill?** |
| **A allwch newid y cynnig fel ei fod yn hyrwyddo cyfle cyfartal ymhellach ac yn meithrin perthnasoedd da?** |
| **Sut byddwch yn cyflawni'r newidiadau arfaethedig?** |
| **Pwy fydd yn cyflwyno'r cynnig?** |
| **Sut byddwch yn gwybod a ydych wedi cyflawni diben y cynnig?** |

**5.Pa dystiolaeth ydych yn ei defnyddio?**

**Gall yr Egwyddorion Gunning, a sefydlwyd o achosion llys yn y gorffennol, fod o gymorth wrth sicrhau ein bod yn deg wrth ymgysylltu ac ymgynghori:**

**Egwyddor 1: Rhaid i'r ymgynghoriad fod ar adeg pan fo cynigion yn dal i fod ar y cam ffurfiannol. Ni ddylech fod eisoes wedi dod i benderfyniad.**

**Egwyddor 2: Rhaid cyflwyno rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. A yw pobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?**

**Egwyddor 3: Rhaid bod digon o amser yn cael ei roi i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o ystyried yr amgylchiadau?**

**Egwyddor 4: Rhaid bod cynnyrch yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn gydwybodol wrth gwblhau'r penderfyniad.**

**A ydych wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu fel y disgrifir uchod ac a oes digon o wybodaeth gennych i fwrw ymlaen?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydyn** | | **Nac ydyn** | |

| |
|---|
| **Ymgysylltu (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)**<br><br>**Ystyriwch gymunedau o ddiddordeb neu le (lle mae pobl yn cael eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu ble maent yn byw).** |

| |
|---|
| **Dylech gynnwys ymgysylltu â rhwydweithiau mewnol lle bo hynny'n briodol – GLAM a Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig.** |
| **Ymgynghori (gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol)**<br><br>**Ystyriwch gymunedau o ddiddordeb neu le (lle mae pobl yn cael eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu ble maent yn byw).**<br><br>**Dylech gynnwys ymgynghori â rhwydweithiau mewnol lle bo hynny'n briodol – GLAM a Rhwydwaith Lleiafrifoedd Ethnig.** |
| **Data ac ymchwil cenedlaethol**<br><br>**Gan gynnwys Adroddiad 'A yw Cymru’n Decach 2018' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ei Fframwaith Mesur, Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Cyfrifiad.** |

| |
|---|
| |
| **Data ac ymchwil lleol**<br><br>**Gan gynnwys Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned Cyngor Bro Morgannwg.** |

**6. Pa mor gadarn yw'r dystiolaeth?**

| |
|---|
| **A yw'n dangos beth fydd yr effaith (cadarnhaol a negyddol)?** |
| **Beth yw’r bylchau?** |
| **Beth fyddwch yn ei wneud am hyn?** |
| **Pa ddata monitro fyddwch yn ei gasglu?** |
| **Pa mor aml y byddwch yn dadansoddi ac yn adrodd ar hyn?** |
| **Ble byddwch yn cyhoeddi data monitro ac adroddiadau?** |

**7. Effaith**

**A oes effaith?**

**Os nad oes effaith, beth yw'r cyfiawnhad dros feddwl hyn? Rhowch dystiolaeth.**

**Os yw'n debygol y bydd effaith, beth ydyw?**

**Oedran**

**Anabledd**

**Ailbennu rhywedd, gan gynnwys hunaniaeth rhywedd**

Sicrhewch fod polisïau'n cynnwys cyplau o'r un rhyw ac yn defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd.

**Priodas a phartneriaeth sifil (gwahaniaethu'n unig)**

**Beichiogrwydd a Mamolaeth**

**Hil**

**Crefydd a chred**

**Rhyw**

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Sicrhewch fod polisïau'n cynnwys cyplau o'r un rhyw ac yn defnyddio iaith niwtral o ran rhywedd.

**Ystyriaethau economaidd-gymdeithasol**

Gall anfantais economaidd-gymdeithasol fod yn anghymesur mewn cymunedau o ddiddordeb a chymunedau lle – meddyliwch sut mae hyn yn arwain at anghydraddoldeb pellach o ran canlyniad a sut y gall croestoriadedd waethygu hyn.

**Y Gymraeg**

Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a bod pob cyfle yn cael ei gymryd i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?

**Hawliau Dynol**

**Sut ydych yn gwybod hyn?**

Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.

**Beth gellir ei wneud i hyrwyddo effaith gadarnhaol?**

**Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.**

**Beth gellir ei wneud i leihau'r risg o gael effaith negyddol?**

Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.

**A oes angen triniaeth fwy ffafriol er mwyn cyflawni canlyniadau cyfartal? (Anabledd yn unig)**

**A fydd yr effaith yn gadarnhaol, yn negyddol neu'n niwtral?**

Esboniwch hyn ar gyfer bob un o'r nodweddion gwarchodedig perthnasol fel y nodwyd uchod.

| |
|---|
| |

**8. Monitro effaith barhaus**

| |
|---|
| **Dyddiad y byddwch yn monitro'r cynnydd a’r canlyniadau** |
| **Mesurau a’r canlyniadau y byddwch yn eu monitro** |
| **Dyddiad y byddwch yn adolygu'r cynnig a weithredwyd a'i effaith** |

**9. Camau gweithredu pellach o ganlyniad i'r asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb hwn**

| Canlyniadau Posibl | Nodwch pa un sy'n berthnasol |
| --- | --- |
| Dim newid mawr | |
| Addasu'r polisi | |
| Parhau â'r polisi | |
| Atal a dileu'r polisi | |

**10. Canlyniadau a Chamau Gweithredu**

| |
| --- |
| **Camau gweithredu a argymhellir i’r uwch dîm rheoli** |
| **Canlyniad yn dilyn ystyriaeth ffurfiol o'r cynnig gan yr uwch dîm rheoli** |

**11. Nodyn Pwysig**

| |
| --- |
| **Os ydych wedi nodi effeithiau, rhaid i chi roi manylion y rhain yn eich adroddiad Ca** **wrth geisio cymeradwyaeth ar gyfer eich cynnig.** |

**12. Cyhoeddi**

| |
|---|
| **Ble byddwch yn cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'ch asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb?**<br><br>**Yn ogystal ag unrhyw fan yr ydych yn bwriadu cyhoeddi eich cynnig cymeradwy a'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, rhaid i chi anfon copi at Tim Greaves, Cydlynydd Cydraddoldeb, i'w gyhoeddi ar dudalennau cydraddoldeb gwefan Bro Morgannwg.** |

**13. Awdurdodiad**

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd gan (enw)** | |
| **Teitl y Swydd (Uwch Reolwr)** | |
| **Dyddiad cymeradwyo** | |
| **Dyddiad adolygu** | |

# Atodiad 9 – Asesiad Risg

| | |
|---|---|
| **Lleoliad/Safle/Ysgol:** | **Dyddiad:** |
| **Cwblhawyd gan:** | **Dyddiad adolygu:** |
| **Gweithgaredd / Maes / Disgrifiad:** | |

| **Beth yw'r peryglon?** | **Pwy fyddai mewn perygl o niwed a pham?** | **Beth ydych eisoes yn ei wneud?** | **Pa gamau pellach sydd angen eu cymryd?** | **Camau gweithredu gan bwy** | **Camau gweithredu erbyn pryd** | **Dyddiad cwblhau'r camau gweithredu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |